



## Ysgolion, Llywodraethu a Gwasanaethau Technegol

# CYNLLUN ADDYSG GYMRAEG 2010 - 2015



Noddir gan  
Lywodraeth Cynulliad Cymru  
Sponsored by  
Welsh Assembly Government



*'Putting children first..... helping schools improve'*

*Gosod plant yn gyntaf..... helpu ysgolion i wella*

*Cynllun Addysg Gymraeg a  
baratowyd yn unol â gofynion  
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*

## Y Rhestr Gynnwys

1 Rhagarweiniad	3
2 Prif nodau ac amcanion y Cynllun Addysg Gymraeg	3
3 Datblygiadau i'r dyfodol	4
4 Cynllun Plant a Phobl Ifanc y Sir a'i berthynas â'r Cynllun Addysg Gymraeg	6
5 Cefndir daearyddol ac ieithyddol	7
6 Sefyllfa'r Gymraeg er 1990	8
7 Hanes a datblygiad Polisi Iaith yr Awdurdod	8
8 Twf a datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yn yr AALI	8
9 Mapio datblygiad y Gymraeg fel ail iaith o fewn yr AALI	9
10 Diffinio ysgolion a chategorïau ieithyddol	13
11 Y ddarpariaeth bresennol	14
12 Addysg feithrin a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg	14
13 Ysgolion cynradd ac addysg gynradd	18
14 Ysgolion uwchradd ac addysg uwchradd, gan gynnwys y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Ieuentid	21
15 Darpariaeth ôl-16	23
16 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	24
17 Dalgylchoedd ysgolion	25
18 Y polisi cludiant	26
19 Y polisi cyllido ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg	26
20 Y Gwasanaeth Athrawon Bro a'r Gwasanaeth Ymgynghorol	27
21 Canolfannau Iaith	28
22 Gwybodaeth i rieni am addysg cyfrwng Cymraeg	29
23 Hyfforddiant a gwasanaethau ar gyfer llywodraethwyr ysgolion	29
24 Staffio a recriwtio	29
25 Addysg gymunedol a Sgiliau Sylfaenol	30
26 Cysylltiadau gydag awdurdodau a mudiadau eraill	30
27 Monitro	31
28 Targedau ac amserlen gweithredu fesul sector	32
29 Atodiadau	
1. Data'r Cyfrifiad ar siaradwyr Cymraeg fesul ward etholiadol	42
2. Rhestr cyrsiau HMS	43
3. Tabl twf/datblygiad addysg Gymraeg	44
4. Rhagamcanu niferoedd disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd ar gyfer y 5 mlynedd nesaf	45

## 1 RHAGARWEINIAD

**1.1** Ar 19 Chwefror 1998 cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Gynllun Iaith Gymraeg yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ac ynddo nodir sut y mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, wrth ymdrin â'r cyhoedd, yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

O dan Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Addysg Lleol ddarparu Cynllun Iaith Gymraeg sy'n delio'n benodol ag Addysg. Er hwylustod cyfeiriol gelwir y cynllun yn "Gynllun Addysg Gymraeg".

**1.2** Mae'r "Cynllun Addysg Gymraeg" yn rhan o'r Prif Gynllun Iaith.

- a)** Cymeradwywyd Cynllun Addysg Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ar 16 Mehefin 2001. Yn dilyn cyfnod gweithredu tair blynedd y Cynllun Addysg Gymraeg lluniwyd y Cynllun hwn fel olynnydd iddo.
- b)** Cymeradwywyd y Cynllun Addysg Gymraeg hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ar (*i'w nodi'n dilyn y cyfnod ymgynghori*).
- c)** Mae'r ymrwymadau a'r trefniadau sydd yn y Cynllun Addysg Gymraeg wedi eu cymeradwyo ar y lefel uchaf, a gweithredir y Cynllun gydag awdurdod a chefnogaeth lawn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
- ch)** Pe byddai angen gweithredu prosesau statudol ychwanegol ar gyfer unrhyw dargedau yn y Cynllun Addysg Gymraeg, gweinyddir y rhain yn llawn yn unol â'r anghenion deddfwriaethol priodol, e.e. termau Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988.

Ceir gwybodaeth bellach ynghylch y "Cynllun Addysg Gymraeg" oddi wrth:

Rheolwr y Bwrdd Gwasanaeth Addysg  
Llywodraethu, Cynhwysiant a Chymorth Ysgol  
Ysgolion, Llywodraethu a Gwasanaethau Technegol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
Tŷ Keir Hardie  
Riverside Court  
Avenue de Clichy  
Merthyr Tudful  
CF47 8XD

Ffôn: 01685 724616

Ffacs: 01685 721965

E-bost: [education@merthyr.gov.uk](mailto:education@merthyr.gov.uk)

## 2 PRIF NODAU AC AMCANION Y CYNLLUN ADDYSG GYMRAEG

- Sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bob plentyn y mae ei rieni/warcheidwaid am iddo gael ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny o fewn pellter teithio rhesymol o gartref y plentyn. Golyga hyn blant o oedran cyn ysgol ymlaen.

- Sicrhau dilyniant datblygedig o addysg gynradd cyfrwng Cymraeg i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Bydd disgyblion a gafodd eu haddysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu mynychu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg; hybu dilyniant ieithyddol o CA4 ymlaen hyd at yrfa dysgu gydol oes disgyblion a myfyrwyr y Sir.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel iaith gyntaf ac/neu ail iaith ar yr amserlen yn holl ysgolion y Sir, yn unol ag anghenion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer pob cyfnod allweddol. Sicrhau fod pob disgybl yn cael cyfle i sefyll arholiad allanol yn y Gymraeg erbyn diwedd CA4.
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys yn ystod y broses o lunio Datganiad, wrth ddilyn gofynion Cod Ymarfer AAA Cymru.
- Sicrhau bod pob disgybl sy'n mynychu ysgol benodedig cyfrwng Cymraeg yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn rhugl erbyn diwedd CA2.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r holl ysgolion er mwyn gwella safon y Gymraeg fel mamiaith ac ail iaith. Bydd holl ysgolion y Sir yn derbyn cyngor a chefnogaeth gan ymgynghorwyr y Gymraeg a'r gwasanaethau cefnogi ysgolion. Cynnig cefnogaeth bellach gan y tîm Athrawon Bro/Teithiol sydd yn ymweld â'r ysgolion ac sy'n monitro safonau ieithyddol ysgolion ar ran yr AALI.
- Cynnal a hyrwyddo'r cynllun Hyfforddiant Mewn Swydd presennol sy'n cefnogi datblygiad y Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith, a darparu cyfleoedd i ddisgyblion wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru trwy gyfrwng y Cwricwlwm Cymreig.

### **3 DATBLYGIADAU I'R DYFODOL**

**3.1** Cyfarfu â'r holl dargedau yn y Cynllun Addysg Gymraeg cyntaf.

#### **3.2** Gweledigaeth y Sir

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor yn amlinellu ei flaenoriaethau wrth:

- wneud pob ymdrech i hyrwyddo a hwyluso defnydd y Gymraeg ble bynnag bo'n bosibl;
- symud y Cyngor yn agosach at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb ar bob cyfle.

Mae polisiâu a mentrau newydd yr Awdurdod yn gyson ag egwyddorion y cynllun gwreiddiol. Bydd angen ystyried y pethau ymarferol nad ydynt yn tanseilio ein bwriad i fabwysiadu a hyrwyddo cydraddoldeb mewn darpariaeth Cymraeg.

Y bwriad yw sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i'r un safon uchel ag yn y Saesneg. Caiff hyn ei fonitro drwy'r safonau gwasanaethu Gofal Cwsmer. Mae gwybodaeth ynglŷn ag ymrwymiad y Cyngor i safonau cyfartal yn y ddwy iaith wedi'i gynnwys yn y dogfennau allweddol, gan gynnwys yr Adroddiad Cynnydd Gwelliant Parhaol.

Mae cyflenwi gwasanaeth yn y ddwy iaith yn cydymffurfio ag ymrwymiad cyfredol i safonau fel y pennir yn Siarter y Dinesydd, a dangosyddion perfformiad eraill sydd wedi'u mabwysiadu sy'n effeithio ar gyswllt gyda chwsmeriaid. Nod y Cyngor yw sicrhau cysondeb yn safon y gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ar bob pwynt cyflenwi gwasanaeth. Mae'r safonau sy'n berthnasol i gynnig a gweithredu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg yn parhau i gael eu monitro'n rheolaidd, gydag adolygiad blynyddol trwyadl.

### **3.3 Strategaethau ar gyfer y Dyfodol**

Mae'r Awdurdod, drwy weithio ar y cyd gyda'r Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, yn parhau i adolygu rhagamcanion nifer y disgyblion er mwyn cynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol. Dengys y ffigurau cyfredol bod yr Awdurdod yn cwrdd â'r angen am 0.5 o leoliadau meithrin ar gyfer plant 3 mlwydd oed a bod darpariaeth breifat yn ategu at hyn drwy gynnig cefnogaeth Gymraeg ychwanegol i'r blynyddoedd cynnar. Mae'r Ganolfan Blant Integredig, a agorwyd yn 2005, yn cynnig darpariaeth ar gyfer y ddwy sector, ac mae hyn drwy bartneriaeth gyda darparwyr preifat (gweler Rhan 12.9 am fanylion pellach).

Mae nifer disgyblion Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn disgyn, ac mae 1,730 yn llai o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd yn awr (Ion 2010) o'i gymharu â 1996. Mae'r gostyngiad yma hefyd wedi effeithio ar yr ysgolion cynradd Cymraeg: mae'r niferoedd ar y gofrestr (disgyblion rhwng 4 ac 11 mlwydd oed) wedi gostwng o 630 ym 1996 i'r lefel bresennol o 470. Mae Cynllun Plant a Phobl Ifanc 2008-11 yn dangos ymrwymiad yr awdurdod i barhau i godi safonau cyrhaeddiad ac i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad i ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, a'r ymrwymiad i gael gwared ar leoedd dros ben, fel y disgrifir yng Nghynllun Trefniadaeth yr Ysgol.

Er mwyn parhau i ddarparu addysg Gymraeg o ansawdd i blant cynradd sydd â'u rhieni'n ei ddymuno ar eu cyfer, bydd yr awdurdod yn cyflawni adolygiad blynyddol gan ddefnyddio data cyfradd geni, demograffig a thueddiadau i gyfarwyddo'r gwaith o gynllunio lleoedd ysgol (gweler targed 3.1). Yn ystod 2010 gwnaeth yr awdurdod ddsbarthu gwybodaeth i bob cartref am addysg cyfrwng Cymraeg fel rhan o broses codi ymwybyddiaeth. Yn ystod 2011-12 bydd yr awdurdod yn ystyried cynnal arolwg ymysg rhieni i asesu'r galw am addysg Gymraeg.

Mae'r awdurdod yn ymroddedig i ddarparu o leiaf lle rhan amser mewn lleoliad Blynyddoedd Cynnar drwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg, yn ddibynnol ar alw gan rieni, o'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn dair oed i'r holl rieni/warcheidwaid sy'n dymuno hyn. I gyflawni hyn, rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y sector wirfoddol, gan gynnwys Mudiad Ysgolion Cymru a PPA (Cymru).

Yn ôl ffigurau rhagamcanu ar gyfer disgyblion yn y sector Uwchradd, mae disgwyl, ar y cyfan, i'r nifer presennol o ddisgyblion ddisgyn i 3988 erbyn 2010 ar 3804 i 2021. Bydd yr Awdurdod yn parhau i gynllunio'n strategol ac yn rhanbarthol, gydag awdurdodau cymdogol, megis Rhondda Cynon Taf, i sicrhau darpariaeth addysg uwchradd Gymraeg (gweler targed 5.1).

**3.4** Fel yr amlinellir yng Nghynllun Rheoli Asedau 2009-14 yr awdurdod, mae cynnal a gwella ansawdd adeiladau ysgolion yn dasg bwysig ar gyfer yr Awdurdod Addysg Lleol a'i ysgolion. Gall newid amgylchedd yr ysgol gael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu yn ogystal â helpu'r ysgol i ddod yn ganolbwynt yn y gymuned. Mae datblygiad adeiladau ysgol yn hanfodol i gynlluniau strategol yr Awdurdod ac mae'n golygu partneriaeth glòs gydag ysgolion, cyrff llywodraethol a'r gymuned.

Drwy ddefnyddio Rhaglen Gyfalaf Adeiladu'r Awdurdod ac arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC), disgwylir bydd dwy ysgol gynradd Gymraeg y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn cael eu hail leoli o fewn y blynyddoedd nesaf i adeiladau gwell o fewn y Cyngor Bwrdeistref Sirol. Symudodd Ysgol Santes Tudful i adeiladau newydd yn Ffordd Pantyffyn, Merthyr Tudful, yn ystod Tymor y Gwanwyn 2009. Bydd Ysgol Rhyd y Grug yn symud i'w safle newydd yn Aberfan, Merthyr Tudful, ar gyfer mis Medi 2010. Mae hyn yn unol â pholisi'r Awdurdod a LICC i sicrhau bod pob adeilad ysgol yn addas ar gyfer addysgu a dysgu yn y 21ain Ganrif erbyn 2016 (gweler targed 3.1b).

## **4 CYNLLUN PLANT A PHOBL IFANC Y SIR A'I BERTHYNAS Â'R CYNLLUN ADDYSG GYMRAEG**

**4.1** Dengys Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI) yr Awdurdod ymrwymiad yr AALI i symud yr

agenda addysg a hyfforddiant yn ei blaen, ac i barhau i godi safonau cyrhaeddiad, o'r lefelau cymeradwy cyfredol. Yn ganolog i'r ymrwymiad mae'r elfen sylfaenol sy'n sicrhau fod disgyblion a myfyrwyr yn cael y sbardun addysgol i hybu'r sgiliau ieithyddol sy'n arwain at ddwyieithrwydd, a'r medrau priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg i ddiwallu anghenion y cymunedau a wasanaethir gan ein hysgolion.

**4.2** Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn gosod yr ymagwedd leol tuag at gwrdd â'r heriau yn "Plant a Phobl Ifanc: Mae Heddiw'n Dda ac Yfory'n Ddisglair". Bydd y Gwasanaeth Addysg yn parhau i flaenoriaethu'r blaenoriaethau strategol cytunedig ar gyfer newid sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc o bob oed; i wella:

- cyrhaeddiad, cymwysterau a sgiliau bywyd;
- cynhwysiant cymdeithasol plant a phobl ifanc anabl a'u rhieni;
- iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc;
- diogelwch a lles y plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed;
- iechyd a lles pob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig iechyd rhywiol pobl ifanc;
- mwynhad, dysgu a sgiliau cymdeithasol plant a phobl ifanc a chynyddu gweithgareddau corfforol drwy chwarae hunangyfeiriedig a gweithgareddau hamdden;
- dylanwad plant, pobl ifanc a'u rhieni ar y gwasanaethau maent yn eu derbyn ac ar wasanaethau sy'n cael eu dylunio ar eu cyfer;
- mynediad pobl ifanc digartref i dai a chefnogaeth; a
- chyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc drwy leddfu effaith tlodi ac anfantais.

Mae ymdrin â'r materion hyn a chyfrannu i'r gweithredoedd wedi'u nodi o fewn y themâu ymysg prif bryderon y Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer plant a phobl ifanc yw bod:

*Y plant a'r bobl ifanc i gyd ym Merthyr Tudful yn mwynhau bywyd ac yn cyflawni eu llawn botensial.*

Yn nhermau'r CPPI mae'r meysydd blaenoriaeth a'r amcanion allweddol canlynol yn arbennig o berthnasol i'r Cynllun Addysg Gymraeg:

*Amcan Craidd 5 Heriau Strategol:*

*Datblygu Merthyr yn gymuned ddwyieithog sy'n cyfrannu i'r uchelgais genedlaethol a lleol i fod yn wlad ddwyieithog.*

*Mae ein hail her strategol yn deillio o'r gydnabyddiaeth mai prin yw'r galw am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac mai ein tasg ni yw ysgogi diddordeb yn yr iaith, ac annog dwyieithrwydd yn weithredol a chefnogi mynegiant diwylliant Cymreig.*

**4.3** Am gopi o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc cysylltwch â Phennaeth Cynllunio mewn Partneriaeth, Llywodraethu, Cynhwysiant a Chymorth Ysgol, Tŷ Keir Hardie, Avenue de Clichy, Merthyr Tudful, CF47 8XD. Mae'r Cynllun hefyd ar gael ar wefan yr awdurdod ar [www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk)

## **5 CEFNDIR DAEARYDDOL AC IEITHYDDOL**

**5.1** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn Gyngor Unedol a sefydlwyd pan ad-drefnwyd llywodraeth leol yng Nghymru yn Ebrill 1996. Mae iddo 33 o Gynghorwyr etholedig. O fewn ei ffin bresennol mae amrywiaeth eang o draddodiadau cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol, sy'n seiliedig yn aml ar natur y gwahanol fathau o gymunedau yn y Sir. Mae'r Cyngor yn gwasanaethu 54,117 o breswylwyr sefydlog (Cyfrifiad y Boblogaeth 2001 (CAS146), Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Dros y ddwy ganrif ddiwethaf mae Merthyr Tudful wedi gweld newid economaidd sylweddol, yn enwedig o ganlyniad i'r dirywiad yn y diwydiannau echdynnu ac, yn fwy diweddar, yn y diwydiannau cynhyrchu. O ganlyniad i'r dirywiad hwn mewn diwydiannau, mae Merthyr Tudful yn

profi ystod eang o heriau economaidd a chymdeithasol cysylltiol, gan gynnwys lefelau uchel o ddiweithdra a disymudrwydd economaidd. Dangosodd fwletin ystadegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2005 bod yr 11 rhanbarth etholiadol yn y Fwrdeistref Sirol ymysg y 40% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac roeddynt i gyd yn fwy difreintiedig na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Mae 5,534 (10.2%) o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y Sir (Cyfrifiad y Boblogaeth 2001 (CAS146), Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae'r ffigyrau yng Nghyfrifiad 2001 yn nodi bod 24.5% yn y grŵp oedran 3-15, ac 14.6% yn y grŵp oedran 16-24, yn siaradwyr Cymraeg.

Gweler Atodiad 1 am fap thematig o'r Rhanbarth Etholiadol a thabl o'r data perthnasol.

**5.2** Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, fel mewn nifer o Awdurdodau Unedol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn y gwahanol gymunedau. Yn Ward y Gurnos, 7.1% yn unig o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg tra bo 13.2% yn Ward Cyfarthfa yn siarad yr iaith.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am amrediad o wasanaethau llywodraeth leol i'r etholwyr. Cyflenwir y rhain gan yr adrannau canlynol, o'r prif ganolfannau yn y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN neu o Dŷ Keir Hardie, Avenue de Clichy, Merthyr Tudful, CF47 8XD fel y rhestrir isod:

Cyfarwyddwr Ysgolion, Llywodraethu a Gwasanaethau Technegol, Canolfan Ddinesig  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid, Canolfan Ddinesig  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adfywiad Cymdeithasol, Tŷ Keir Hardie

Lleolir Adran Gwasanaethau Llywodraethu, Cynhwysiant a Chymorth Ysgol y Sir yn Nhŷ Keir Hardie, Avenue de Clichy, Merthyr Tudful, CF47 8XD, ac mae'r Gwasanaeth yn darparu addysg i blant o 3 i 18 oed mewn ysgolion. Addysgir 9,508 o blant 3-18 oed yn y Fwrdeistref Sirol: 5,269 yn y sector cynradd, 4,098 yn y sector uwchradd a 145 yn y sector addysg arbennig. Amrywia maint yr ysgolion cynradd o 30 (Ysgol Gynradd Mount Pleasant) i 398 (Ysgol Santes Tudful), a maint yr ysgolion uwchradd o 657 (Ysgol Uwchradd Babyddol Bishop Hedley) i 1,449 (Ysgol Uwchradd Cyfarthfa).

**5.3** Mae 10.58% o ddisgyblion cynradd y Fwrdeistref Sirol yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae un disgybl sydd â Datganiad anghenion addysgol arbennig (0.48% o'r holl ddisgyblion gyda datganiad) yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Yn y sector uwchradd, mae 8.8% o ddisgyblion yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

**5.4** Mabwysiadodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yr egwyddor fod y Gymraeg a'r Saesneg i'w trin yn gyfartal mewn busnes cyhoeddus a gweinyddiad cyfiawnder. Mae'r egwyddor hon yn rhan annatod o'r Cynllun Addysg Gymraeg, ac o nod yr Awdurdod i hyrwyddo datblygiad llwyddiannus y Gymraeg fel mamiaith ac ail iaith yn ei sefydliadau addysgol.

## **6 SEFYLLFA'R GYMRAEG ER 1990**

**6.1** Bu gostyngiad ym mhoblogaeth Merthyr Tudful o 59,000 ym 1991 i 54,117 yn 2001 (ffigurau Cyfrifiad y Boblogaeth). Ar hyn o bryd mae 10.2% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol yn siarad Cymraeg, o'i gymharu â 7.1% ym 1991. Mae hyn yn gynydd o 1,267 o bobl, a'r tyb yw bod hyn o ganlyniad i'r tyfiant mewn dysgu ac addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae ffigyrau Cyfrifiad 2001 yn dangos bod 24.5% o blant 3-15 mlwydd oed a 14.6% o bobl ifanc 16-24 mlwydd oed yn siarad Cymraeg. Mae Atodiad 1 yn amlinellu sut mae'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg ym Merthyr Tudful wedi'i ddsbarthu.

## 7 HANES A DATBLYGIAD POLISI IAITH YR AWDURDOD

**7.1** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi mabwysiadu'r egwyddor dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ymdrin â'r cyhoedd ac wrth weinyddu cyfiawnder. Mae'r egwyddor hon yn rhan integrol o'r Cynllun Addysg Gymraeg, ac o nod yr Awdurdod i hyrwyddo datblygiad llwyddiannus y Gymraeg fel mamiaith ac ail iaith yn ei sefydliadau addysgol.

**7.2** O fewn y CPPI 2008-11 mae'r awdurdod yn bwriadu meithrin dwyieithrwydd a hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn y cwricwlwm yng Nghymru, gan dalu ystyriaeth briodol i anghenion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

## 8 TWF A DATBLYGIAD ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG YN YR AALL

**8.1** Agorwyd yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf, Ysgol Santes Tudful ym 1972. Wedi hyn bu cyfnod o dyfiant cyson ac ym 1976 sefydlwyd ail ysgol gynradd Gymraeg, Ysgol Rhyd y Grug.

**8.2** Mae'r nifer o ddisgyblion sy'n derbyn addysg feithrin Cymraeg gan yr Awdurdod hefyd wedi cynyddu. O ganlyniad i gynigion statudol, newidiodd y feithrinfa cyfrwng Saesneg yn Ysgol Rhyd y Grug yn ddarpariaeth ddwyieithog ym mis Medi 1998, ac ar ôl hynny yn gyfrwng Cymraeg, gan gynyddu'r nifer o lefydd meithrin cyfrwng Cymraeg.

Nifer ar y gofrestr	Ysgol Rhyd y Grug (capasiti 218)		Ysgol Santes Tudful (capasiti 390)	
	Llawm amser	Lleoedd meithrin rhan amser	Llawm amser	Lleoedd meithrin rhan amser
Ionawr 1990	233	24	271	53
Ionawr 1997	252	18	392	56
Ionawr 2005	188 yn cynnwys lleoedd meithrin llawn amser	0	334	55
Ionawr 2006	183 yn cynnwys lleoedd meithrin llawn amser	0	328	52
Ionawr 2007	177 yn cynnwys lleoedd meithrin llawn amser	0	379 yn cynnwys lleoedd meithrin llawn amser	16
Ionawr 2008	164 yn cynnwys lleoedd meithrin llawn amser	0	387 yn cynnwys lleoedd meithrin llawn amser	0
Ionawr 2009	154 yn cynnwys lleoedd meithrin llawn amser	0	341 yn cynnwys lleoedd meithrin llawn amser	57
Ionawr 2010	145 yn cynnwys lleoedd meithrin llawn amser	0	339	61

**8.3** Fel y gwelir yn y tabl uchod, mae'r newidiadau demograffig ym Merthyr Tudful hefyd wedi effeithio ar nifer y disgyblion yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr 1997 a mis Ionawr 2010, bu colled net o 19.19% o ddisgyblion ar draws pob sector. Erbyn mis Ionawr 2010 roedd y sectorau meithrin/cynradd yn unig wedi gweld colled o 22.93% (1,577) o'i ddisgyblion o'i gymharu â lefel 1996. Mae'r newidiadau hyn hefyd yn amlwg yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, ble mae gostyngiad o 24.09% yn y nifer o ddisgyblion ers 1996.

**8.4** Cyn yr ad-drefnu Llywodraeth Leol, roedd disgyblion yn y sector uwchradd yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Rhydywaun a Rhydfelen. Ers 1996 mae'r mwyafrif o ddisgyblion oed



uwchradd yn mynychu Ysgol Gyfun Rhydywaun gyda nifer fechan o ddisgyblion yn parhau i fynychu Ysgol Gyfun Rhydfelen yn Nhaf Elai. Ers 2001 mae disgyblion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi mynychu Ysgol Gyfun Rhydywaun ac ym mis Mawrth 2010 roedd 398 o ddisgyblion (11-18 mlwydd oed) o Ferthyr Tudful ar y gofrestr.

## **9 MAPIO DATBLYGIAD Y GYMRAEG FEL AIL IAITH O FEWN YR AALL**

### **9.1 Y Sector Cynradd**

Mae AALI Merthyr Tudful yn bwriadu sicrhau bod ei holl ddisgyblion yn derbyn addysg o ansawdd uchel. Mae felly wedi sicrhau bod gan yr holl athrawon a chynorthwywyr dosbarth sy'n gyfrifol am gefnogi a dysgu Cymraeg fel Ail Iaith yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol er mwyn cefnogi dysg y disgyblion fel y nodwyd yn nogfennau Llywodraeth y Cynulliad, Dyfodol Dwyieithog ac Iaith Pawb. Yn y sector cynradd cyfrwng Saesneg, gwelir mai'r angen mwyaf yw gwella ac atgyfnerthu sgiliau ieithyddol athrawon/cynorthwywyr dosbarth. Mae'r AALI, ar y cyd gyda'i wasanaeth ymgynghorol, ESIS, a'r Tîm Athrawon Bro wedi cefnogi datblygiad llwyddiannus Cymraeg fel Ail Iaith o fewn ysgolion Merthyr Tudful drwy gefnogi athrawon ac ysgolion unigol yn ogystal â'r rhaglen HMS blynyddol.

Mae'r ffocws wedi bod ar ddatblygu sgiliau darllen, ac yn fwy diweddar, llefaredd y disgyblion mewn ymateb i adroddiadau ac argymhellion Estyn. Mae adroddiad monitro ac adolygu blynyddol ar ddefnydd ac effaith Ariannu Athrawon Bro a'r Gronfa Ysgolion Gwell yn amlygu'r datblygiad a'r cynnydd a wnaed yn dysgu Cymraeg fel Ail Iaith yn y sector cynradd.

Mae'r Tîm Athrawon Bro yn monitro safonau disgyblion ac mae pob ysgol wedi gweld budd o ganlyniad i ganolbwyntio HMS ar ddeunydd asesu anstatudol ACCAC ar Gyfnod Allweddol 2.

#### Hyfforddiant i Gefnogi Cymraeg fel Ail Iaith yn y Sector Cynradd

Mae rhaglen o gyrsiau dwys 15 diwrnod wedi'u targedu ar dri lefel gallu yn anelu cynyddu'r nifer o athrawon sy'n meddu ar wybodaeth weithiol ddigonol o'r Gymraeg er mwyn ei ddysgu fel pwnc ail iaith i ddisgyblion o'r Blynyddoedd Cynnar hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Mae rhaglen o gyrsiau gloywi 5 diwrnod yn ategu at y rhain gyda'r bwriad o sicrhau bod gan athrawon y cyfle i uwchraddio eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae athrawon sy'n mynychu'r sesiynau hyfforddi hyn yn derbyn cefnogaeth ddilynol gan Athrawon Bro fel bo angen.

Hefyd, cynigir rhaglen o gyrsiau 5 diwrnod i athrawon yn seiliedig ar gyflawni adnoddau sy'n benodol i gyfnodau allweddol fel y crëwyd gan Athrawon Bro ESIS, gan gynnwys Ben Bwgan Brain, Stabec a'r fideo a'r deunyddiau cefnogol newydd, Dylan y Dewin. Mae presenoldeb ar y cyrsiau hyn, a'r gwerthusiad ohonynt wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae'r cyrsiau hefyd ar gael i athrawon anghenion addysgol arbennig.

Mae'r nifer o ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith ar draws y ddau Gyfnod Allweddol fel a ganlyn:

	<b>Cyfnod Allweddol 1</b>	<b>Cyfnod Allweddol 2</b>
1996	1,562	3,132
1999	1,591	2,995
2001	1,377	2,882
2005	1,177	2,526
2006	1,158	2,513
2007	1,142	2,454
2008	1,098	2,415
2009	1,129	2,307
2010	1,138	2,292

Mae'r nifer o ddisgyblion a addysgir gan yr awdurdod (gan gynnwys disgyblion yn Ysgol Santes Tudful ac Ysgol Rhyd y Grug) fel a ganlyn:

	<b>Cyfnod Allweddol 1</b>	<b>Cyfnod Allweddol 2</b>
1996	1,750	3,495
1999	1,604	3,405
2001	1,451	3,223
2005	1,328	2,849
2006	1,299	2,797
2007	1,283	2,742
2008	1,216	2,700
2009	1,250	2,587
2010	1,283	2,544

Mae'r gwahaniaethau yn y ddau dabl yn dangos y nifer o ddisgyblion nas dysgwyd Cymraeg fel ail iaith, er enghraifft, gan mai Cymraeg oedd eu mamiaith, neu gan fod ganddynt anghenion addysgol arbennig.

## **9.2** Y Sector Uwchradd

Yn y pedair ysgol uwchradd o fewn y Fwrdeistref Sirol mae'r holl ddisgyblion yn dysgu Cymraeg fel Ail Iaith ar Gyfnod Allweddol 3 mewn cyfnod nad yw'n llai na'r amser a neilltuir ar gyfer ieithoedd modern eraill. Yn unol â gofynion statudol ers 1999, mae pob ysgol uwchradd wedi cyflwyno Cymraeg fel Ail Iaith fel pwnc gorfodol yng Nghyfnod Allweddol 4. Rhoir cyfle i bob disgybl sefyll arholiad wedi'i achredu'n allanol mewn Cymraeg fel Ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Gall yr holl ddisgyblion ddewis Lefel AS a Lefel A Cymraeg ar Gyfnod Allweddol 5 o fewn eu hysgol bresennol neu drwy drefniadau gweithio ar y cyd. Mae cyfle i'r disgyblion yn ysgol arbennig yr awdurdod i ddilyn cwrs Cymraeg fel Ail Iaith addas.

Mae'r nifer o ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith ar draws y ddau Gyfnod Allweddol fel a ganlyn:

	<b>Cyfnod Allweddol 3</b>	<b>Cyfnod Allweddol 4</b>
1996	2,476	766
1999	2,429	1,216
2001	2,364	1,635
2005	2,207	1,530
2006	2,222	1,534
2007	2,147	1,482
2008	2,055	1,496
2009	2,007	1,475
2010	1,942	1,379

Mae'r nifer o ddisgyblion wedi'u haddysgu gan yr Awdurdod ar draws y ddau Gyfnod Allweddol fel a ganlyn:

	<b>Cyfnod Allweddol 3</b>	<b>Cyfnod Allweddol 4</b>
1996	2,528	1,599
1999	2,475	1,693
2001	2,416	1,660
2005	2,244	1,556
2006	2,260	1,560
2007	2,182	1,508
2008	2,057	1,495
2009	2,011	1,479
2010	1,957	1,388

Mae'r gwahaniaethau yn y ddau dabl yn dangos y nifer o ddisgyblion nas dysgwyd Cymraeg fel ail iaith, er enghraifft, gan mai Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf, neu gan fod ganddynt anghenion addysgol arbennig. Nid yw'r tablau hyn yn cynnwys disgyblion uwchradd sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Rhydywaun.

#### Hyfforddiant i Gefnogi Cymraeg fel Ail Iaith yn y Sector Uwchradd

Fel yn y sector cynradd, mae AALI Merthyr Tudful yn sicrhau bod pob athro Cymraeg fel Ail Iaith â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol sydd ei angen i gefnogi dysg disgyblion. Yn y sector uwchradd cyfrwng Saesneg, mae athrawon yn manteisio ar raglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar sail unigol / Bwrdeistref Sirol / rhwng-Bwrdeistref Sirol wedi'i gefnogi gan yr Ymgynghorydd Cymraeg ESIS a'r Athro Bro Uwchradd. Mae hyn er mwyn coethi a datblygu'r ddarpariaeth yn barhaus ac i godi safon y Gymraeg ar draws yr holl gyfnodau allweddol, gan gynnwys ôl-16.

Er enghraifft, mae'r hyfforddiant hwn wedi cynnwys datblygu sgiliau allweddol disgyblion yng nghyd-destun dysgu Cymraeg fel Ail Iaith, cefnogi adrannau i achredu ar Gyfnod Allweddol 4 ac ôl-16, a defnydd TGCh i godi safonau'r disgyblion.

Mae cyrsiau penodol ar fethodoleg, er enghraifft sgiliau meddwl ac arddulliau dysgu disgyblion, wedi cael effaith gadarnhaol ar arferion dosbarth drwy ddysgu Cymraeg fel Ail Iaith, yn ôl y dystiolaeth o arolygiadau Estyn, adroddiadau ysgol Estyn ac adroddiadau Ymgynghorydd Cymraeg ESIS ar adrannau unigol. Gall pob adran Gymraeg dderbyn cefnogaeth unigol benodol ar gyfer materion Cymraeg fel Ail Iaith gan Ymgynghorydd Cymraeg ESIS a'r Athro Bro.

Yn ddiweddar, mae'r Athro Bro wedi bod yn arwain ar y cyfnod trosglwyddo fel y nodwyd yn nogfen Llywodraeth y Cynulliad, y Wlad sy'n Dysgu a dogfen Estyn, Arolwg gan Estyn o'r Gymraeg fel Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r Cyfnod Pontio (2004). Darparwyd hyfforddiant a chefnogaeth gan y Fwrdeistref Sirol i ehangu rhannu gwybodaeth ymysg y sector cynradd ac uwchradd ac i godi safonau cyrhaeddiad disgyblion yn y Gymraeg fel Ail iaith.

Ers mis Medi 1999 mae pob disgybl wedi cael cyfle i sefyll arholiad allanol yn y Gymraeg fel Ail Iaith erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4, ac mae'r polisi yma'n parhau i gael ei weithredu'n unol â deddfwriaeth Gymreig ar addysg. Mae'r ddarpariaeth hon yn amrywio'n ei natur o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae rhai ysgolion yn cynnig y Cwrs Llawn TGAU Cymraeg fel pwnc craidd ar Gyfnod Allweddol 4, tra bo eraill yn cynnig cymysgedd o Gyrsiau Llawn a Byr Cymraeg fel Ail Iaith.

## TGAU Cymraeg fel Ail Iaith

Blwyddyn	Carfan	Rhif Mynediad	Nifer wedi sefyll	Nifer wedi llwyddo			Canran wedi sefyll		
				A*-A	A*-C	A*-G	A*-A	A*-C	A*-G
1999	794	184	183	30	99	178	16.4	54.1	97.3
2001	871	186	186	36	115	184	19.4	61.8	98.9
2003	813	188	188	27	97	187	14.4	51.6	99.5
2004	786	173	173	47	101	170	27.2	58.4	98.3
2005	778	143	143	36	90	143	25.2	62.9	100.0
2006	803	101	100	34	79	100	34.0	79.0	100.0
2007	759	86	86	33	80	86	38.4	93.0	100.0
2008	749	81	81	34	63	81	42.0	77.8	100.0
2009	748	101	100	37	71	92	37.0	71.0	92.0

Mae'r AALI wedi dadansoddi'r gostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr yn dilyn y cwrs llawn ers 2005. Mae'r gostyngiad yma'n gyson â'r lefelau mewn awdurdodau cyfagos, a hwyrach ei fod yn berthnasol i'r newid yn natur yr arholiad yn 2005.

## Cymraeg fel Ail Iaith – Cwrs Byr TGAU

Blwyddyn	Carfan	Rhif Mynediad	Nifer wedi sefyll	Nifer wedi llwyddo			Canran wedi sefyll		
				A*-A	A*-C	A*-G	A*-A	A*-C	A*-G
1999	794	9	9	0	2	7	0.0	22.2	77.8
2001	871	136	136	3	47	124	2.2	34.6	91.2
2003	813	178	178	12	56	168	6.7	31.5	94.4
2004	786	86	86	15	47	83	17.4	54.7	96.5
2005	778	123	123	10	68	123	8.1	55.3	100.0
2006	803	157	157	10	96	157	6.4	61.1	100.0
2007	759	215	215	18	92	215	8.4	42.8	100.0
2008	749	228	228	2	68	219	0.9	29.8	96.1
2009	748	223	221	1	61	214	0.5	27.6	96.8

Mae'r mwyafrif o ysgolion uwchradd yn cyrraedd safonau da yn y cwrs llawn ac achrediad ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion yn y cwrs byr. 42.9% yw'r canran o ddisgyblion sy'n sefyll Arholiad TGAU Cymraeg fel Ail Iaith ar hyn o bryd, unai Cwrs Byr neu Gwrs Llawn. Mae'r AALI yn bwriadu cynyddu'r canran yma i 45% erbyn mis Gorffennaf 2015, fel y gwelir yn nharged 5.2. Bydd yn golygu monitro ac adolygu'r sefyllfa bresennol mewn ysgolion unigol a chynnig cefnogaeth barhaus drwy'r rhaglen HMS ac ymweliadau â'r ysgolion. Bwriedir datblygu darpariaeth y Gymraeg ar Gyfnod Allweddol 4 i sicrhau bod pob ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol ar gyfer disgyblion ôl-14 ac achredu cyrsiau galwedigaethol.

## 10 DIFFINIO YSGOLION A CHATEGORÏAU IEITHYDDOL

**10.1** Dim ond dau gategori ieithyddol o ysgolion sy'n bodoli yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sef ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig ac ysgolion cyfrwng Saesneg.

**10.2** Yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, dysgir pob pwnc, heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg. Does dim newidiadau i gategoriâu ieithyddol wedi digwydd o fewn ysgolion y Cyngor ers 1996. Mae dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg: Ysgol Rhyd y Grug ac Ysgol Santes Tudful.

Cymraeg yw cyfrwng hyfforddiant ac asesu o'r Blynyddoedd Cynnar hyd flwyddyn 6. Nod ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yw sicrhau bod eu holl ddisgyblion yn ddwyieithog erbyn eu bod yn 11 mlwydd oed. I'r diben hwn, pan fo disgyblion yn ymuno â'r ysgolion yn 3 neu 4 mlwydd oed, maent yn cael eu hymdrwytho'n raddol yn yr iaith Gymraeg. Yn dilyn tymor cyntaf y plentyn, disgwylir i'r holl weithgareddau gael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

**10.3** Mae'r rhaglen ar gyfer dysgu Cymraeg fel Ail Iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael ei ddisgrifio uchod yn Rhan 9.

## **11 Y DDARPARIAETH BRESENNOL**

**11.1** Mae darpariaeth bresennol yr Awdurdod fel a ganlyn:

<b>Ysgolion</b>	<b>Cyfrwng yr addysgu</b>	<b>Nifer yr ysgolion</b>
Meithrin	Cymraeg Saesneg	0 3
Babanod	Cymraeg Saesneg	0 3
Iau	Cymraeg Saesneg	0 3
Cynradd	Cymraeg Saesneg	2 18
Uwchradd	Cymraeg Saesneg	(disgyblion yn derbyn addysg uwchradd yn ardal Rhondda Cynon Taf) 0 4
Ysgolion Arbennig	Cymraeg Saesneg	0 1
Unedau AAA Cynradd	Cymraeg Saesneg	0 10
Unedau AAA Uwchradd	Cymraeg Saesneg	0 1
Unedau cyfeirio disgyblion (Uwchradd)	Cymraeg Saesneg	0 1

### **11.2** Cydweithio Traws-Sirol

Fel y nodir uchod, mae disgyblion uwchradd o Ferthyr Tudful yn mynychu Ysgol Rhydywaun ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

## **12 ADDYSG FEITHRIN A BLYNYDDOEDD CYNNAR CYFRWNG CYMRAEG**

**12.1** Mae'r Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, a gynullwyd dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion, wedi bod yn cynllunio ar gyfer darpariaeth lleoedd cyn ysgol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r bartneriaeth wedi cynhyrchu Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, sy'n amlinellu sut fydd yr awdurdod lleol yn cwrdd â'i gyfrifoldebau ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar yn y dyfodol. Mae copïau o'r Cynllun ar gael gan y Cydlynnydd Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Cwm Golau, Canolfan Plant Integredig, Duffryn Road, Pentrebach, Merthyr Tudful, CF48 4BJ.

### **12.2** Partneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP)

Sefydlwyd y Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP) ym 1998 i gynrychioli'r rheiny gyda diddordeb mewn addysg blynyddoedd cynnar, gofal plant a chyfluoedd

cyflogaeth a hyfforddi. Ei nod yw sicrhau bod darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant yn cael ei ddatblygu ar gyfer pob plentyn ble mae angen ar y rhieni ym mhob cymuned o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae cynrychiolaeth o'r sectorau preifat, gwirfoddol a statudol ar yr EYDCP, gan gynnwys Mudiad Ysgolion Meithrin (gweler targedau 1 a 2).

Ar hyn o bryd mae pum darparwr cyn oed ysgol cyfrwng Cymraeg wedi'u cofrestru gyda'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae Cylchoedd Meithrin yn darparu gofal sesiynol ar gyfer plant rhwng 2 a 2½ mlwydd oed, nes eu bod yn mynychu'r ysgol. Mae Cylch Meithrin Twyn Carmel wedi'i gymeradwyo a chaiff ei ariannu fel lleoliad Dechrau'n Deg ac mae'n cynnig gofal plant rhan amser yn rhad ac am ddim i blant 2 flwydd oed. Rhagwelir y caiff 2 Gylch Meithrin newydd eu datblygu'n ystod y cyfnod 2010-2015. Bydd hyn yn gyfanswm o tua 32 o leoedd cyn ysgol newydd (gweler targed 1.1). Bydd y ddarpariaeth newydd yn ystyried argymhellion gan yr Asesiad Digonedd Gofal Plant, yn ogystal ag ymateb i'r bylchau a nodwyd mewn darpariaeth ac ymateb i'r galw yn lleol. Bydd yn bwysig ystyried y ddarpariaeth bresennol er mwyn sicrhau cynladwyedd ac i osgoi dadleoli darpariaeth. Amcan yr EYDCP yw sicrhau bod o leiaf un lleoliad cyn ysgol ym mhob cymuned. Mae'r EYDCP wedi cynllunio ar gyfer taeniad daearyddol cyfartal o leoliadau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r Ddeddf Gofal Plant 2006 yn gosod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu digon o ofal plant. Mesurir y digonedd hwn mewn perthynas â 3 maes penodol; un o'r meysydd hyn yw digonedd o ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Cyflwynwyd y ddyletswydd statudol hon fis Ebrill 2008, a mesurir digonedd drwy archwiliad helaeth o'r galw gan rieni yn ogystal ag edrych ar y cyflenwad presennol ochr yn ochr â lefelau deiliadaeth.

Mae sawl strategaeth mewn lle i hwyluso creu lleoedd newydd ac i sicrhau ansawdd a chynladwyedd y ddarpariaeth bresennol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- parhad mewn cefnogaeth drwy fuddsoddiad ariannol drwy'r Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM)
- grantiau cychwynnol cyfalaf a chyllid ar gyfer darparwyr newydd;
- Grantiau cynladwyedd ar gyfer darparwyr presennol
- Rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar
- Cefnogaeth i ymgymryd â Nod Barcud Sicrhau Ansawdd (gan gynnwys cynllun Sicrhau Ansawdd Merthyr Tudful)
- cynllun Lleoedd Cymorthedig Ochr yn Ochr, a
- addysg blynyddoedd cynnar yn y sector nad yw'n cael ei gynnal gan AALI.

Ym mis Ebrill 2007, cyflwynodd Lywodraeth Cynulliad Cymru'r fenter newydd Dechrau'n Deg, ac un elfen o'r rhaglen hon yw ariannu lleoedd gofal plant rhan amser mewn ardaloedd daearyddol wedi'u targedu. Nod yr EYDCP yw sicrhau bod dewis i rieni i fynychu darpariaeth cyn ysgol cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

Mae nodau a chanlyniadau strategol yr EYDCP yn ffurfio rhan o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Amcan Craidd 1 y CPPI yw bod plant a phobl ifanc yn cael Dechrau Teg mewn bywyd a'r sylfaen gorau bosibl ar gyfer eu tyfiant a'u datblygiad yn y dyfodol.

### **12.3 Perthynas yr Awdurdod a'r Sector Gwirfoddol**

Mae'r sector gwirfoddol yn randdeiliaid allweddol wrth gyflawni targedau'r EYDCP a thargedau cysylltiol. Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn derbyn arian gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i gyflawni canlyniadau penodol sy'n berthnasol i gefnogaeth a datblygiad sectorau cyn ysgol cyfrwng Cymraeg a Ti a Fi (gweler targedau 1.1-1.4).

#### 12.4 Niferoedd sy'n mynychu Dosbarthiadau Meithrin

Mae'r nifer o blant (cyfateb i lawn amser) sy'n mynychu dosbarthiadau meithrin a gynhelir gan yr AALI fel a ganlyn:

Ysgol	Capasiti (cyfateb i lawn amser)	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010
Ysgol Rhyd y Grug	30	30	30	22	22	19	25	22	24	25
Ysgol Santes Tudful	30	24.5	24.5	24.5	27.5	26.5	33.5	29.5	29	30.5
% sy'n parhau mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg		100	100	97	100	100	100	98.5	100	100

Gall lefelau mynychu amrywio gydol y flwyddyn mewn Cylchoedd Meithrin. Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn monitro lefelau mynychu'r grwpiau a chaiff yr wybodaeth ei bwydo'n ôl mewn adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn chwarterol.

Blwyddyn Academaidd 2008-2009 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau manwl ar gael)

Enw'r Dosbarth Meithrin neu'r Cylch Meithrin	Yn derbyn arian am blant 3 mlwydd oed+	Capasiti	Nifer y plant yn mynychu meithrin	Canran wedi trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg
Aberfan	Na	18	13	50%
Cefn Coed	Na	18	52	28%
Pentrebach	Ydy	26	40	83%
Treharris	Na	16	25	71%
Twyn Carmel	Na	20	13	40%

Mae'r EYDCP wedi sicrhau bod cefnogaeth ariannol er mwyn sicrhau bod dewis ar gael i rieni a bod addysg blynyddoedd cynnar ar gael yn y sector nad yw'n cael ei gynnal gan AALI. Hyd yn hyn, mae un Cylch Meithrin wedi cofrestru fel darparwyr addysgol EYDCP cymeradwy. Mae cynrychiolwyr o MYM ar y Panel Blynyddoedd Cynnar o Ansawdd sydd â chyfrifoldeb am asesu ceisiadau newydd. Y bwriad yw cynyddu dewis rhieni a mynediad i addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg unwaith mae darparwyr nad ydynt yn cael eu cynnal yn cael eu cymeradwyo. Gosodwyd targed o 1 darparwr ychwanegol i gyflawni statws addysg blynyddoedd cynnar (targed 1.2).

Mae Athro Ymgynghorol yn cynghori a chefnogi lleoliadau cyn ysgol ar faterion sy'n berthnasol i ansawdd a chwricwlwm. Nid yw'r Athro Ymgynghorol yn siarad Cymraeg, ond mae'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Cylchoedd Meithrin drwy gyfrwng y Saesneg.

### **12.5 Anawsterau yn y ddarpariaeth**

Merthyr Tudful sydd drydydd o'r gwaelod o ran darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru; er bod fframweithiau cefnogi wedi cael eu sefydlu, mae 3 Cylch Meithrin wedi cau ers 2004. Y prif beth sy'n rhwystro'r sector yw'r diffyg mewn adeiladau addas a diffyg staff profiadol gyda'r cymwysterau addas.

Mae rhai grwpiau cyn ysgol sydd eisoes yn bodoli hefyd wedi brwydro gyda lefelau isel o ddeiliadaeth. Mae MYM wedi ceisio ymdrin â hyn drwy nifer o strategaethau marchnata, a gwelwyd ychydig gynnydd.

Mudiad Ysgolion Meithrin have been proactive in developing new Ti a Fi groups in an attempt to increase take up in Cylchoedd Meithrin.

Mae'r tabl canlynol yn dangos darpariaeth grwpiau Ti a Fi presennol:

<b>Enw'r Cylch</b>	<b>Lleoliad</b>
Cylch Ti a Fi Merthyr	Neuadd Zoar, Pontmorlais
Cylch Ti a Fi Treharris	Neuadd Eglwys Sant Mathias
Cylch Ti a Fi Pentrebach	ICC Pentrebach
Cylch Ti a Fi Y Gurnos	Canolfan <i>Busy Bees</i>
Cylch Ti a Fi Aberfan	Aberfan
Cylch Ti a Fi Beddllwynog	Canolfan Adnoddau Beddllwynog
Cylch Ti a Fi Twyncarmel	Clwyd y Fagwr, Twyncarmel
Cylch Ti a Fi Dowlais	Llyfrgell Dowlais

### **12.6 Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg neu Ddwieithog**

Amcan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw sicrhau bod gan bob disgybl fynediad i, a'u bod yn derbyn, addysg o safon uchel, ac i'r diben hwn mae wedi sicrhau bod gan bob athro a chynorthwydd dosbarth sydd â chyfrifoldeb dros gefnogi a dysgu Cymraeg fel ail iaith yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi addysg plant. Yn y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, gyda'r Cyfnod Sylfaen ar fin cael ei gyflwyno, mae'r pwyslais ar barhau i wella ac atgyfnerthu sgiliau ieithyddol athrawon dosbarth a staff cefnogol. Mae'r AALI, mewn cydweithrediad ag ESIS, ei wasanaeth ymgynghori, a'r tîm Athrawon Bro, wedi cefnogi datblygiad llwyddiannus Cymraeg fel ail iaith o fewn lleoliadau blynyddoedd cynnar mewn ysgolion drwy gynnig cefnogaeth i athrawon unigol ac ysgolion, gan gynnwys canllawiau ymarfer da ar gyfer dosbarthiadau meithrin a derbyn.

Cynhelir archwiliad o anghenion hyfforddi gyda phob ysgol a grŵp gwirfoddol yn flynyddol. Defnyddir yr wybodaeth hon i rannu ymarfer da rhwng y sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir i gyfarwyddo'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer pob blwyddyn academiaidd. Mae'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi wedi nodi bod y galw am hyfforddiant Cymraeg yn flaenoriaeth uchel. Cynlluniodd yr EYDCP gyrsiau hyfforddiant 'Cymraeg Cyfeillgar' ar gyfer y Flwyddyn Academiaidd 2007/8 ac mae cyrsiau chwe wythnos ar gael i Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn y sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir. Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn darparu NVQ lefel 3 mewn gofal plant a hyfforddiant addysg. Mae hwn wedi bod yn faes llwyddiannus wrth geisio ymdrin â'r prinder mewn gweithwyr gofal plant lefel 3 sy'n siarad Cymraeg (targed 1.4).



### **12.7** Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig

Mae'r gwasanaeth anghenion arbennig cyfrwng Cymraeg, Law yn Llaw, yn cynnig dewis lle o fewn eu lleoliad cyn ysgol leol neu meithrinfa ddydd i deuluoedd sydd â phlant cyn ysgol gydag anghenion arbennig. Mae'r cynllun yn rhoi cymorth wrth ddarparu cefnogaeth, trafndiaeth, ffioedd ac offer arbennig ble bo angen ar lefel un i un. Ar hyn o bryd, caiff ei ariannu drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a menter Dechrau'n Deg i gefnogi plant gydag anghenion corfforol, emosiynol ac ymddygiadol. Yn 2008 rhoddodd y cynllun gymorth i dros ugain o blant ym Merthyr Tudful i gael mynediad i ddarpariaeth cyn ysgol. Cynhaliwyd gwerthusiad diweddar o'r cynllun ac fe ddefnyddir y canlyniadau i asesu effeithiolrwydd y rhaglen ac i sicrhau ei fod yn cwrrd ag anghenion teuluoedd lleol a darparwyr. Un o'r meysydd allweddol yw'r prinder staff cefnogol sydd, mewn rhai achosion, yn golygu na all ddarparwyr dderbyn plant.

### **12.8** Partneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP)

Mae'r AALI yn gweithio'n agos gyda Phartneriaeth y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i sicrhau gwell cydraddoldeb mynediad i addysg blynyddoedd cynnar i bob plentyn. Ers ei sefydlu ym 1998, mae'r EYDCP wedi profi ymdeimlad o ymrwymiad ar y cyd i wella mynediad i wasanaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant o ansawdd uchel. Mae un amcan i'r bartneriaeth gref: sicrhau bod gan bob plentyn y cychwyn gorau bosibl mewn bywyd a'r cyfle i gyflawni ei lawn potensial.

### **12.9** Canolfan Plant Integredig Cwm Golau

Daeth Canolfan Plant Integredig Cwm Golau'n weithredol fis Ebrill 2005. Mae darpariaeth helaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant ar gael yn y Ganolfan. Mae grŵp cyn ysgol cyfrwng Cymraeg gyda 26 lle wedi cael ei gofrestru gan AGGCC wedi cael ei sefydlu ac mae bron a bod yn llawn. Er mwyn cwrrd â'r galw gan rieni, gyda chefnogaeth gan yr EYDCP mae'r Cylch Meithrin wedi ehangu i gynnig gofal cofleidiol ac yn cynnig gwasanaeth casglu o Ysgol Santes Tudful. Dyfarnwyd statws Addysg Blynyddoedd Cynnar i'r Cylch Meithrin yng Nghanolfan Plant Integredig Cwm Golau a chaiff ei archwilio gan Estyn yn ystod Tymor yr Haf 2010. Dyfarnwyd Nod Barcud Sicrhau Ansawdd Cylch Rhagorol i ddau Gylch Meithrin. Mae Cylch Ti a Fi hefyd yn cynnal un sesiwn bob wythnos yn y Ganolfan.

### **12.10** Y Blynyddoedd Cynnar a'r Cynllun Pobl Ifanc

Mae Cynllun Plant a Phobl Ifanc Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cynnwys y Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar. Mae gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cynllun addysg cyfrwng Cymraeg ar gael yn:

*Amcan Craidd 1: Mae plant a phobl ifanc yn cael dechrau teg i fywyd a'r sail gorau bosibl ar gyfer eu tyfiant a'u datblygiad yn y dyfodol*

- *Sicrhau cynaliadwyedd, ansawdd a hygyrchedd ein darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant, gan gynnwys darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg;*

Mae copi o Gynllun Plant a Phobl Ifanc 2008-11 ar gael drwy gysylltu â Phennaeth Cynllunio Partneriaeth, Llywodraethu, Cynhwysiant a Chymorth Ysgol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Tŷ Keir Hardie, Avenue de Clichy, Merthyr Tudful, CF47 8XD.

## **13 YSGOLION CYNRADD AC ADDYSG GYNRADD**

**13.1** Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gyfanswm o 4 ysgol babanod, 4 ysgol iau a 19 ysgol gynradd, gyda 2 o'r rheiny yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sy'n dilyn y Rhaglen Astudio Gymreig ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 (CA1) a Chyfnod Allweddol 2 (CA2). Mae gan yr ysgolion hyn bedwar pwnc craidd yn CA2 ac maent yn dysgu pob pwnc heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ni ddysgir Saesneg yn CA1 mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, er mae rhai ysgolion yn cyflwyno'r pwnc tua diwedd blwyddyn 2. Mae'r gweddill o'r ysgolion yn rhai cyfrwng Saesneg ac astudir y Gymraeg fel pwnc ail iaith yn CA1 a CA2 am tua 1 awr ac 20 munud bob wythnos. Mae gan bob ysgol bolisi a chynllun gwaith ar gyfer y pwnc ac maent yn derbyn cefnogaeth reolaidd gan ESIS, gwasanaeth ymgynghorol yr Awdurdod.

Mae'r Cwricwlwm Cymraeg yn ofyniad cyffredin yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru. Mae cyfleoedd i bob disgybl mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru ar draws y cwricwlwm. Mae ESIS, gwasanaeth ymgynghorol yr Awdurdod wedi cynhyrchu polisi enghreifftiol ar gyfer y Cwricwlwm Cymraeg, sydd ar gael i bob ysgol. Mae cyrsiau HMS hefyd ar gael ar hwn ac mae'r athrawon ymgynghorol ar gyfer Cymraeg yn gweithio gydag athrawon ymgynghorol mewn pynciau eraill i gyflwyno cyrsiau a chynhyrchu canllawiau a deunyddiau perthnasol.

### **13.2** Dilyniant Ieithyddol

Mae trefniadau manwl mewn lle i sicrhau bod dilyniant ieithyddol effeithiol yn bodoli rhwng cyfnodau allweddol. Mae adroddiadau archwilio ar ysgolion o fewn yr AALI wedi amlygu effeithiolrwydd y trefniadau pontio cyffredinol. Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg mae trafodaethau manwl rhwng athrawon Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3 ynglŷn â gwelliant disgyblion unigol sydd ar fin trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 2. Mewn rhai ysgolion mae disgyblion Blwyddyn 2 yn treulio hanner olaf tymor yr haf gydag athro Blwyddyn 3. Mae hyn yn eu helpu i baratoi ar gyfer y trosglwyddo i ddefnyddio'r ddwy iaith yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mewn Cymraeg fel Ail Iaith, mae staff ymgynghorol yn cydlynu cyfarfodydd rheolaidd rhwng athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i hwyluso pontio/trosglwyddo esmwyth rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 wrth ddysgu ac addysgu'r iaith. Mewn cydweithrediad gydag ysgolion, mae staff ymgynghorol wedi datblygu cyfres o unedau pontio fel rhan integrol o'r trefniadau trosglwyddo hyn.

Bydd pontio'n parhau i fod yn bwysig pan fydd y Cyfnod Sylfaenol yn cael ei weithredu. Bydd angen i ysgolion barhau i weithio'n agos gyda'r sector nad yw'n cael ei gynnal i sicrhau dilyniant effeithiol o'r iaith wrth i ddisgyblion symud o leoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal i ysgolion. Mae gwybodaeth am bontio rhwng lleoliadau cyn ysgol cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Rhan 12.4.

### **13.3** Asesu

Asesir cynnydd disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ym mhob ardal o'r cwricwlwm heblaw am Saesneg. Rhoddir cryn dipyn o bwyslais ar asesu datblygiad llfareddd disgyblion yn Gymraeg. Mae rhai ysgolion yn gwneud defnydd o ddeunyddiau asesu dewisol ACCAC, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 1.

Defnyddir cynlluniau gwaith ESIS ar gyfer Cymraeg fel ail iaith yn y mwyafrif helaeth o ysgolion, ac maent yn cynnwys deunyddiau asesu ar ôl pob uned o waith. Mae defnyddiau asesu o'r fath yn cyflenwi ac yn cyfrannu i asesiad parhaus gan athrawon.

### **13.4** Hwyrddyfodiaid

Ar hyn o bryd nid yw'r Awdurdod yn darparu unrhyw wasanaethau penodol i ysgolion cynradd ar gyfer hwyrddyfodiaid i'r iaith Gymraeg, heblaw am gefnogaeth gyffredinol gan Athrawon Bro i ddysgu'r iaith Gymraeg.

### **13.5** Darparu lleoedd

O ganlyniad i'r gostyngiad mewn nifer disgyblion, nid yw'r AALI wedi wynebu unrhyw anawsterau'n darparu digon o leoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ers 1996. Mae rhan 13.6 isod yn

disgrifio'r llety ychwanegol a ddarparwyd. Mae'r ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn gwasanaethu dalgylch clir ddiffiniedig, trefniant sy'n sicrhau gall ddisgyblion dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg o fewn, neu'n agos, i'w cymuned gartref.

Fodd bynnag, golyga maint daearyddol y dalgylch bod rhaid i rai disgyblion deithio'n bellach i'r ysgol na'r mwyafrif mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

### 13.6 Lleoedd Gwag

Mae'r tablau isod yn dangos y niferoedd safonol a'r niferoedd o leoedd gwag ym mhob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ers 1999:

Ysgol	Blwyddyn	Rhif derbyniad	Lleoedd dros ben
Ysgol Santes Tudful	1999	55	-10
	2000		7
	2001		18
	2002		38
	2003		36
	2004		59
	2005		56
	2006		62
	2007		62
	2008	55	62
	2009	55	50
2010	55	51	
Ysgol Rhyd y Grug	1999	30	-5
	2000		8
	2001		19
	2002		10
	2003		16
	2004		22
	2005		52
	2006		54
	2007		66
	2008	26	41
	2009	26	27
2010	26	37	

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ddiweddar wedi diwygio'r dull o gyfrifo capasiti ysgol. Mae'r canllawiau'n adlewyrchu'r lle a'r adnoddau cefnogi sydd eu hangen o fewn ysgolion i gwrdd ag anghenion dysgu ac addysgu yn y 21ain Ganrif.

### 13.7 Adeiladau

Ers 1996, mae'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi derbyn buddsoddiad cyfalaf er mwyn gwella cyfleusterau drwy addasu, ailwampio neu ychwanegu estyniad.

Rhoddyd estyniad i Ysgol Santes Tudful er mwyn gwella llety i'r blynyddoedd cynnar. Fel rhan o ymrwymiad yr awdurdod i sicrhau adeiladau o ansawdd i ysgolion (targed 3.1b), symudodd Ysgol Santes Tudful i adeiladau newydd yng Ngwanwyn 2009. Mae'r awdurdod hefyd yn parhau i fuddsoddi yn adeiladau Ysgol Rhyd y Grug, gan ddarparu toiledau newydd, ffenestri, ac ailaddurno.

Fodd bynnag mae'n anodd gwella rhai rhannau o adeilad yr ysgol i'r safon ddymunol, fel y neuadd fechan, a does dim maes chwarae. O ganlyniad, bydd Ysgol Rhyd y Grug yn symud i safle newydd yn Aberfan erbyn mis Medi 2010.

## **14 YSGOLION UWCHRADD AC ADDYSG UWCHRADD, GAN GYNNWYS GWASANAETH GYRFAOEDD A GWASANAETHAU IEUENCTID**

**14.1** Nid oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg; darperir addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg gan Riondda Cynon Taf. Mae disgyblion yn mynychu Ysgol Gyfun Rhydywaun i dderbyn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd mae'r Fwrdeistref Sirol yn cludo 404 o ddisgyblion o Ferthyr Tudful i Ysgol Gyfun Rhydywaun. Yn Ysgol Gyfun Rhydywaun, dysgir pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, heblaw am Saesneg, ar Gyfnodau Allweddol 3 a 4. Mae pedair ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ym Merthyr Tudful ble dysgir yr holl bynciau drwy gyfrwng y Saesneg, a dysgir Cymraeg fel ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny gydag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn ofyniad cyffredin yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer dysgwyr hyd at 14 mlwydd oed, ac mae'n rhan o sail y cwricwlwm ym mhob ysgol. Dylai fod cyfleoedd i ddysgwyr ôl-14 gymryd rhan weithredol wrth ddeall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru fel rhan o'r byd cyfan. Mae pob ysgol uwchradd yn ymwybodol o'r angen i greu nawys Gymreig o fewn eu hysgolion ac i gynnwys arwyddion Cymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn ystod y diwrnod ysgol ble bo hynny'n bosibl. Mae pob ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol i godi ymwybyddiaeth disgyblion o'r Cwricwlwm Cymreig.

### **14.2 Pontio**

Ers dechreuad yr AALI, mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol wedi ceisio gweithio'n agos gyda phob cyfnod addysg er mwyn sicrhau dilyniant mewn darpariaeth ac yn nysg disgyblion er mwyn gallu rhannu ymarfer effeithiol yn haws rhwng, er enghraifft y sectorau cynradd ac uwchradd. Yn sicr, mae'r agwedd 'gymdeithasol' o bontio yn effeithiol o fewn y sector cyfrwng Cymraeg a Saesneg gyda chysylltiadau agos yn datblygu rhwng clystyrau o ysgolion. Mae'r AALI yn datblygu a sicrhau darpariaeth ddi-dor a blaengar, cyn belled â phosibl, yn nhermau'r cwricwlwm a dulliau dysgu.

Yn unol â'r Flaenoriaeth Cynllun Addysg Sengl i *Wella cefnogaeth cwricwlwm ac ehangu a lledaenu cyfleoedd dysgu* mae'r AALI wedi cyflawni archwiliad o Gyfnod Allweddol 2/3 i nodi'r ymarfer gorau presennol a'r meysydd i'w gwella ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd. Bydd yr AALI yn awr yn rhannu argymhellion a chanlyniadau o'r Archwiliad Pontio i sicrhau gweithredu a datblygu gyda'r Grŵp Gwelliant Ysgol a'r Fforwm Penaethiaid (gweler targed 4.1).

Yn y tabl isod, amlinellir y canran blyneddol ers 2002 o'r disgyblion dderbyniodd addysg gynradd cyfrwng Cymraeg ac aeth ymlaen i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae'r disgyblion hyn wedi trosglwyddo i Ysgol Rhydywaun (gwnaeth y disgyblion a fethodd drosglwyddo symud o'r ardal).

	Cyfanswm y disgyblion	Nifer wedi trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg	Canran
2002	71	71	100%
2003	85	83	97.6%
2004	77	77	100%
2005	56	54	96.4%
2006	63	62	98.4%
2007	68	62	91.2%
2008	80	80	100%
2009	66	63	95.5%

Byddwn yn parhau i fonitro ac asesu'r nifer o ddisgyblion cynradd cyfrwng Cymraeg sy'n trosglwyddo i addysg uwchradd yn Ysgol Rhydywaun yn erbyn y cyfraddau trosglwyddo cyffredol.

Mae cydweithio agos rhwng Ysgol Gyfun Rhydywaun a'r ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, ar lefel bugeiliol a chwricwlwm. Mae cynlluniau trosglwyddo statudol mewn lle i helpu dilyniant a gwelliant yr holl ddisgyblion sy'n trosglwyddo o'r cyfnod cynradd. Fel rhan o'r cynllun trosglwyddo statudol, trosglwyddir gwybodaeth ar safonau cyrhaeddiad ac asesu i'r sector uwchradd. Mae disgyblion Blwyddyn 6 o Ysgol Santes Tudful ac Ysgol Rhyd y Grug yn ymweld ag Ysgol Rhydywaun yn ystod mis Chwefror, mis Mai a mis Mehefin mewn rhaglen sy'n cynnwys TGCh, Technoleg a sesiynau ymwybyddiaeth. Yn ystod eu tymor cyntaf yn Rhydywaun mae disgyblion Blwyddyn 7 yn cymryd rhan mewn rhaglen drosglwyddo a chwrs iaith breswyl. Mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg o'r sector cynradd i'r sector uwchradd.

Mae'r Athro Bro Uwchradd wedi gweithio gyda'r holl glystyrau ysgol i feithrin rhannu gwybodaeth am lwyddiannau disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel Ail Iaith ac i rannu ymarfer da rhwng yr athrawon sectorau cynradd ac uwchradd. Mae rhai ysgolion yn defnyddio'r uned bontio Cymraeg fel Ail Iaith, Bobol Bach, i gysylltu'r gwaith rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7. Bydd trosglwyddo effeithiol yn parhau i dderbyn cefnogaeth er mwyn sicrhau bod safonau'n parhau i godi yn y Gymraeg ac mewn Cymraeg fel Ail Iaith.

### **14.3 Asesu**

Ar hyn o bryd, nid oes asesiad swyddogol o sgiliau dwyieithrwydd disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn Ysgol Rhydywaun mae cynllun asesu sy'n canolbwyntio ar y disgyblion wedi cael ei sefydlu er mwyn cofnodi datblygiad pob disgybl yn rheolaidd gan ddefnyddio dulliau asesu parhaus. Rhan integrol o'r cynllun asesu fydd y broses o rannu gwybodaeth yn barhaus gyda'r disgybl mewn perthynas â nodau ac amcanion y gwaith, y meini prawf asesu a'r broses o osod targedau ar gyfer datblygiad pellach. Mae disgyblion yn Ysgol Gyfun Rhydywaun yn mabwysiadu sgiliau traws-ieithyddu yn rheolaidd gan ddefnyddio deunyddiau Saesneg fel sail ar gyfer ymatebion llafar ac ysgrifenedig. Rhoddir pob cyfle i ddisgyblion ddangos eu gallu i weithio drwy gyfrwng y ddwy iaith, ond nid yw hyn yn cael ei asesu'n ffurfiol. Mae Ysgol Gyfun Rhydywaun yn dysgu ac asesu pob pwnc (heblaw am Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg.

### **14.4 Hwyrddyfodiaid**

Does dim gofyn wedi bod am drosglwyddo o ysgolion cyfrwng Saesneg i rai cyfrwng Cymraeg hyd yn hyn, ac o ganlyniad, nid yw'r AALI yn darparu gweithgareddau na gwasanaethau atodol penodol ar gyfer hwyrddyfodiaid. Fodd bynnag, petai'r angen yn codi byddai'r tîm ymgynghori Cymreig yn darparu cefnogaeth ychwanegol i roi cymorth i hwyrddyfodiaid i integreiddio yn unol â'r gofyn ac yn unol ag anghenion ysgolion unigol.

### **14.5 Darparu lleoedd**

Ym mis Mawrth 2010 roedd 398 o ddisgyblion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn mynychu Ysgol Gyfun Rhydywaun yn Rhondda Cynon Taf. Agorwyd yr ysgol hon ym 1995 gyda 114 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 7, ac ar hyn o bryd mae ganddi 960 o ddisgyblion rhwng 11 ac 18 mlwydd oed, gyda chyfanswm capasiti o 1024 o ddisgyblion.

### **14.6 Gwasanaethau Atodol**

Mae'r AALI yn darparu addysg a chyngor gyrfaoedd mewn partneriaeth gyda Gyrfa Cymru. Mae gan Yrfa Cymru Bolisi Iaith Gymraeg gweithiol gyda'r holl ddeunyddiau a chyhoeddiadau perthnasol ar gael i gefnogi myfyrwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r ymgynghorydd gyrfaoedd ar gyfer Ysgol Gyfun Rhydywaun yn ddwyieithog ac mae wedi'i leoli yn yr ysgol.

Mae Isadrannau Cyfleoedd Dysgu Ieuentid ac Oedolion (YALO) Llywodraeth Cynulliad Cymru yn argymhell dylai staff Ieuentid a Chymuned barhau i ddarparu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, mae gofyn i Swyddogion Addysg Ieuentid Cymunedol gyflwyno a datblygu'r egwyddorion yn y ddogfen Asiantaeth Ieuentid Cymru a'r Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuentid Gwirfoddol, *Agor Dau Ddrws*, a'u cynnwys yn eu

Cynlluniau Gweithredol a'u rhaglenni canolfan eu hunain.

## 15 DARPARIAETH ÔL-16

**15.1** Gall pob disgybl ôl-16 dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Rhydywaun ac mae'r chweched dosbarth ar agor i bawb. Mae ystod eang o gyrsiau ar gael, gan gynnwys AS, Lefel A, Lefelau A Galwedigaethol a NVQ Lefel 2 a 3. Mae dewis o 30 cwrs i ddisgyblion yn ogystal â chysiau Lefel AS/A2, sydd hefyd yn cynnwys darpariaeth alwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg.

<b>CYRSIAU ÔL-16 YN YSGOL GYFUN RHYDYWAUN MEDI 2009</b>	
Celf	Cymraeg
Daearyddiaeth	Drama
Ffrangeg	Cerddoriaeth
Hanes	Technoleg Gwybodaeth
Saesneg	Addysg Gorfforol
Sbaeneg	Bywydeg
Cemeg	Ffiseg
Sgiliau Allweddol – Iaith	Astudiaethau Busnes
Sgiliau Allweddol – Rhifedd	CACHE
Sgiliau Allweddol – TG	NOCN
Cymdeithaseg	Arweinyddiaeth Chwaraeon
Mathemateg	Gwyddoniaeth Bwyd
Y Gyfraith	Seicoleg
Technoleg	Astudiaethau Crefyddol
Teithio a Thwristiaeth	Graffeg a Deunyddiau
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Sgiliau Swyddfa

Mae'r Dewisiadau Rhwydwaith 14-19 yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc i ehangu eu dewisiadau a rhoi cyfle iddynt astudio ystod eang o bynciau. Cynigir rhai cyrsiau i ddisgyblion Ysgol Gyfun Rhydywaun ar sail consortiwm gydag ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg eraill. Mae hyn yn galluogi disgyblion i'w hastudio mewn ysgol arall o fewn y consortiwm os nad ydynt ar gael yn Ysgol Gyfun Rhydywaun. Mae datblygiad y rhwydwaith 14-19 yn cynnwys:

- Cyfranogiad yr holl bobl ifanc ym mhob agwedd datblygu a chynnal y Llwybrau Dysgu (ffurfiol, nad yw'n ffurfiol, ac anffurfiol)
- Ehangu partneriaethau'r consortiwm i gynnig dewis ehangach
- Ceisio cynyddu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 16 ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

**16.1** Y polisi ar gwrdd ag anghenion addysgol arbennig yw bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn addysg gydag eraill yr un oed â hwy mewn ysgolion prif lif lle bynnag bo hynny'n bosibl, gyda chefnogaeth ychwanegol ble bo angen. Cynigir y broses gyfan o lunio Datganiad AAA, gan gynnwys yr holl ddogfennaeth i rieni/gwarcheidwaid yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog ar gychwyn y broses asesu statudol. Mae gwybodaeth bellach ar gael gan Bennaeth Gwelliant Ysgol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, Ysgolion, Llywodraethu a Gwasanaethau Technegol, Tŷ Keir Hardie, Avenue de Clichy, Merthyr Tudful, CF47 8XD.

### **16.2** Cod Ymarfer AAA Cymru 2002

Mae'r Awdurdod yn rhoi sylw priodol i God Ymarfer AAA Cymru ar Anghenion Addysgol Arbennig

ac yn ceisio cwrdd ag anghenion addysgol arbennig ei holl ddisgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny sy'n ddwyieithog ac/neu'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Ble mae gan ddisgybl anawsterau dysgu sylweddol, ac angen ei leoli mewn ysgol arbennig, mae'r AALI yn cyflawni asesiad o dan y Ddeddf Addysg 1996 i benderfynu lefel angen y disgybl. Os mai cyfathrebu yw rhan sylweddol anawsterau dysgu'r disgybl, argymhellir systemau cyfathrebu amgen, e.e. iaith arwyddion, Makaton, a byddai'r rhain ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae disgyblion yn yr ysgol arbennig yn dilyn y cwricwlwm cenedlaethol a byddant felly'n derbyn addysg iaith Gymraeg, ond ar hyn o bryd, nid oes un disgybl yn cael ei asesu'n ffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

### **16.3 Ysgolion neu Unedau Arbennig**

Os oes gan ddisgybl anawsterau ymddygiad sylweddol ac angen ei leoli yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, caiff y disgybl fynychu ar sail rhan amser yn unig, gan felly sicrhau ei fod ef neu hi'n parhau i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ei ysgol/hysgol prif lif.

Os caiff ddisgybl ei wahardd o'r ysgol a bod angen hyfforddiant gartref, neu petai hyfforddiant gartref yn cael ei ddarparu ar sail feddygol, darperir y deunyddiau er mwyn addysgu plentyn gartref drwy'r ysgol mae'r plentyn wedi'i fynychu. Os yw'r plentyn wedi mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg, byddai ef/hi'n derbyn yr un deunyddiau a ddefnyddir yn yr ysgol. Mae nifer o diwtoriaid cartref yn gallu dysgu trwy gyfrwng Cymraeg.

### **16.4 Darpariaeth cyfrwng Cymraeg**

Mae aelodau sy'n siarad Cymraeg yng Ngwasanaeth Anghenion Arbennig yr AALI (o fewn y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol ar y cyd gyda Rhondda Cynon Taf). Gall y staff proffesiynol gyfrannu i asesu anghenion addysgol arbennig plant drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau proffesiynol a'r Cod Ymarfer anghenion addysgol arbennig, yna cynnig cyngor, arweiniad a chefnogaeth wrth sicrhau darpariaeth addysg arbennig addas.

Cynigir y broses gyfan o lunio Datganiad AAA, gan gynnwys yr holl ddogfennaeth i rieni/gwarcheidwaid yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog ar gychwyn y broses asesu statudol.

### **16.5 Lleoliadau Preswyl**

Ar hyn o bryd, does dim disgybl wedi'i leoli mewn lleoliadau preswyl sy'n gofyn am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

### **16.6 Cynorthwywyr Cynnal Dysgu**

Os oes gan ddisgyblion anghenion addysgol arbennig neu gyflyrau meddygol cymhleth, sy'n gofyn am gefnogaeth gan gynorthwydd dysgu neu ofal, mae staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu recriwtio i'r swydd.

### **16.7 Gwasanaethau Athrawon Bro ac Athrawon Ymgynghorol**

Mae disgyblion gydag AAA yn derbyn cynlluniau addas drwy CAAA'r ysgol.

### **16.8 Addysg Cyfrwng Cymraeg i Ddisgyblion â Datganiad AAA**

Mae nifer fechan o ddisgyblion gyda Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig yn ysgolion cyfrwng Cymraeg yr Awdurdod (0.17% o'r boblogaeth ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg).

Petai angen cefnogaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol gyfun o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, byddai staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu recriwtio fel bo angen.

### **16.9 Addysg Cyfrwng Saesneg i Ddisgyblion â Datganiad AAA**

Mae tri disgybl o'r awdurdod mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac sy'n dod o gartrefi ble mae o leiaf

un rhiant/gwarcheidwad yn siarad Cymraeg.

## **16.10** Mynediad i therapi lleferydd ac iaith

Trefnir mynediad i therapi lleferydd ac iaith drwy gyfrwng y Gymraeg i blant gydag anhwylderau cyfathrebu gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg. Mae'r ymddiriedolaeth hon yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, a lle bynnag bo'n bosibl, maent yn darparu therapyddion sy'n siarad Cymraeg.

## **17 DALGYLCHOEDD YSGOLION**

**17.1** Mae gan y Cyngor ddalgylchoedd penodedig ar gyfer y ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae'r dalgylchoedd yn seiliedig ar ffiniau cymunedol naturiol ac mae rhaniad gogledd-de naturiol yn y Cyngor Bwrdeistref Sirol. Mae disgyblion yng ngogledd y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn mynychu Ysgol Santes Tudful, a'r rheiny yn y de yn mynychu Ysgol Rhyd y Grug.

**17.2** Mae'r trefniadau derbyn yn unol â Threfniadau Derbyn yr Awdurdod sy'n nodi mai preswylfan o fewn y dalgylch yw'r flaenoriaeth uchaf. Gellir gweld Trefniadau Derbyn yr Awdurdod ar y we yn [www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk) neu mae ar gael gan y Gwasanaethau Disgyblion, Llywodraethu, Cynhwysiant a Chymorth Ysgol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Tŷ Keir Hardie, Avenue de Clichy, Merthyr Tudful, CF47 8XD, Ffôn 01685 724607. Mae gan rieni'r hawl i fynegi dewis a bydd hyn cael ei ystyried ar sail bob yn un, gyda chydymffurfiad ble bynnag bo'n bosibl. Mae lleoedd dros ben yn y ddwy ysgol cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, ond petai gor-danysgrifiad i ysgol, rhoddir ystyriaeth i ddewis rhieni, ond byddai meini prawf derbyn, sy'n cael eu gosod gan yr Awdurdod, yn cael eu gweithredu.

**17.3** Pe na allai'r awdurdod gydymffurfio â dewis rhieni, byddai'n dilyn y broses apelio statudol. Byddai gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor yn trefnu Gwrandawriad Apêl a byddai Panel Apelio Annibynnol yn ystyried pob achos yn unigol.

## **18 Y POLISI CLUDIANT**

**18.1** Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion oed ysgol gorfodol i'r ysgol berthnasol os ydynt yn byw y tu hwnt i "bellter cerdded" i'r ysgol honno. Mae'r gyfraith ar "bellter cerdded", wedi'i ddiffinio mewn dyfarniad Tŷ'r Arglwyddi, ac mae'n datgan mai hyd at ddwy filltir yw'r pellter addas i ddisgyblion dan wyth oed, a thair milltir i bob disgybl arall. Mae'r Awdurdod wedi cytuno diffinio'r pellteroedd hyn fel 1½ milltir i ddisgyblion ysgolion cynradd, iau a babanod, a dwy filltir i ddisgyblion uwchradd (gan gynnwys ôl-16). Mesurir y pellter yn seiliedig ar y llwybr cerdded agosaf.

**18.2** Y pellteroedd hiraf y mae rhaid i ddisgyblion cynradd ac uwchradd eu teithio yw:

Uwchradd	Cyfrwng Cymraeg	13 milltir	<i>Mae'r disgyblion hyn oll yn gymwys am gludiant am ddim</i>
	Cyfrwng Saesneg	7 milltir	
Cynradd	Cyfrwng Cymraeg	4 milltir	
	Cyfrwng Saesneg	8 milltir	

## **19 Y POLISI CYLLIDO AR GYFER ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG**

### **19.1** Cyllidebau Ysgol Dirprwyedig

Mae'r fformiwla gyfredol a ddefnyddir i ddosbarthu arian dirprwyedig i ysgolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cydnabod anghenion ychwanegol ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy glustnodi adnoddau ychwanegol i bob ysgol. Y dyraniadau ychwanegol ar hyn o bryd oedd



£4,200 ar gyfer pob ysgol (blwyddyn ariannol 2009-10) a £4242 ar gyfer pob ysgol (blwyddyn ariannol 2010-11).

## 19.2 Arian Grant Penodol

Hefyd, gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sicrhau arian ychwanegol drwy grantiau gan sefydliadau allanol ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg mewn ysgolion. Sef:

- **Cronfa Ysgolion Gwell:** Yn 2010-2011 o fewn y dyraniad cyfan a wnaed i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gall y Cyngor, drwy Weithgaredd 5, wario £79,460 ar addysg Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg.

- **Grant Fwrdd yr Iaith Gymraeg:** Gall y Cyngor hefyd wario £54,463 (2010-2011) ar ddatblygu'r iaith Gymraeg mewn ysgolion drwy ddefnyddio grant penodol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Defnyddir hwn yn bennaf i ariannu tîm o Athrawon Bro, a'u prif bwrpas yw cynnig cefnogaeth i hyrwyddo addysg Gymraeg ac addysg Gymraeg ail iaith.

## 20 **Y GWASANAETH ATHRAWON BRO A'R GWASANAETH YMGYNGHOROL**

**20.1** Darperir cefnogaeth i ddysgu Cymraeg a Chymraeg ail iaith gan yr ymgynghorydd Cymraeg ESIS a'r athrawon Cymraeg ymgynghorol, yr Athrawon Bro. Yn ogystal, mae ymgynghorwyr cynradd ESIS sy'n siarad Cymraeg yn cefnogi'r ddwy ysgol cyfrwng Cymraeg mewn ymgynghoriad gydag AALI Merthyr Tudful. Mae'r tîm Athrawon Bro'n cael ei ariannu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn seiliedig ar gynnig blynyddol. Mae'r gefnogaeth ariannol yma'n derbyn arian cyfatebol ar gyfradd 25% gan yr awdurdod. Mae adroddiad blynyddol o'r ddarpariaeth ariannol ac ieithyddol yn cael ei wneud i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn amlinellu gwaith y tîm Athrawon Bro yn ystod pob blwyddyn academiaidd.

**20.2** Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn cynnwys:

Cynradd Ail Iaith	8 Athro ymgynghorol (yn cynnwys Uwch Athro Bro)
Cynradd Mamiaith	1 Athro ymgynghorol
Cyfanswm	9 o Athrawon ymgynghorol / Athrawon Bro

### **20.3** Athrawon Bro Cynradd Mamiaith ac Ail Iaith

Yn unol â'r angen, bydd clystyrau o fewn yr Awdurdod yn elwa o:

- gefnogaeth ar gyfer hunan werthusiad ysgolion gan ganolbwyntio ar y Gymraeg fel Mamiaith/Ail Iaith;
- cefnogaeth ar gyfer cynllunio datblygu ar gyfer y Gymraeg;
- adolygu a chyngor ar gaffael adnoddau;
- adolygu a datblygu cymhwysedd staff yn yr iaith Gymraeg drwy gynnal archwiliad o brofiad ac arbenigedd staff, a chanolbwyntio ar gefnogaeth yn y dosbarth i wella ymarfer;
- adolygu'r ddarpariaeth;
- adolygu safonau cyrhaeddiad disgyblion.

**20.4** Mae'r tîm Athrawon Bro yn cael ei reoli gan Ymgynghorydd Cymraeg ESIS gyda'r Uwch Athro Bro Cynradd yn gyfrifol am y tîm Athrawon Bro Cynradd Ail Iaith. Mae Ymgynghorydd Cymraeg ESIS a'r tîm Athrawon Bro wedi'u lleoli yn Nhŷ Dysgu, Trefforest. Amcanion yr Athrawon Bro yw:

- codi safonau cyrhaeddiad mamiaith Cymraeg ac ail iaith;
- datblygu sgiliau'r athrawon yn y Gymraeg yn y ddwy sector iaith; a
- chefnogi strategaethau dysgu ac addysgu.

### **20.5** Athrawon Bro Cynradd Mamiaith ac Ail Iaith

Mae pob ysgol o fewn yr awdurdod yn derbyn hawl sylfaenol, sy'n cynnwys tri ymweliad yn ystod pob blwyddyn academaidd. Yn ystod yr ymweliadau hyn bydd yr Athro/Athrawes Fro yn:

- cefnogi ar gyfer hunan werthusiad yr ysgol gan ganolbwyntio ar y Gymraeg fel Mamiaith/Ail Iaith;
- cefnogi cynllunio datblygu ar gyfer y Gymraeg;
- adolygu a chynghori ar gaffael adnoddau;
- adolygu a datblygu cymhwysedd staff yn yr iaith Gymraeg drwy gynnal archwiliad o brofiad ac arbenigedd staff a chanolbwyntio ar gefnogaeth yn y dosbarth i wella ymarfer;
- adolygu darpariaeth;
- adolygu safonau cyrhaeddiad disgyblion.

Yn ogystal, mae'r Athrawes Fro Iaith Gyntaf yn darparu:

- Cefnogaeth i athrawon newydd gymhwyso (ANG);
- Dadansoddiad o ganlyniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol;
- Gwerthusiad o gynllunio a darpariaeth cwricwlwm;
- Cefnogaeth i gydlynwyr newydd;
- Cefnogaeth i brosiectau arbennig.

I sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o'r tîm Athrawon Bro, bydd yr ymgynghorydd Cymraeg, yr ymgynghorwyr cysylltiol a'r Uwch Athro Bro yn adolygu perfformiad a threfnu ymweliadau monitro drwy gydol y flwyddyn academaidd.

Rhoddir cyfle i ddisgyblion fynychu cyrsiau preswyl i gefnogi a chyfoethogi eu gwybodaeth o'r iaith Gymraeg. Darperir cwrs preswyl tri diwrnod i ddisgyblion Blwyddyn 7 ac 8. Mae'n canolbwyntio ar waith llafar ac yn defnyddio methodoleg trochi. Yn ogystal darperir cwrs i gynorthwyo disgyblion Blwyddyn 12 i baratoi ar gyfer eu harholiadau Lefel A.

### **20.6** Cyrsiau a Gweithgareddau (Mamiaith Cymraeg)

Mae rhestr lawn o'r cyrsiau perthnasol ar wefan ESIS ([www.esis.org.uk](http://www.esis.org.uk)).

### **20.7** Cyrsiau a Gweithgareddau (Cymraeg fel Ail Iaith)

Mae rhestr lawn o'r cyrsiau perthnasol ar wefan ESIS ([www.esis.org.uk](http://www.esis.org.uk)).

### **20.8** Pynciau Eraill

Yn ogystal â darparu cefnogaeth i'r Iaith Gymraeg, gall tîm Ymgynghori ESIS gynnig cefnogaeth i bynciau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft cerddoriaeth, addysg grefyddol, daearyddiaeth ac addysg gorfforol. Yn ogystal, drwy ei gytundeb lefel gwasanaeth gydag Uned Iaith Genedlaethol Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, gall yr Awdurdod alw ar arbenigedd Hyfforddwyr Cynorthwyol i gefnogi ysgolion Cymraeg.

### **20.9** Anawsterau

Weithiau ceir anawsterau yn penodi athrawon a staff cefnogol gyda'r cymwysterau addas yn y sector cyfrwng Cymraeg. Mae hyn hefyd yn wir pan fo angen athrawon i gyflenwi mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu mewn adrannau Cymraeg mewn ysgolion uwchradd i ganiatáu i athrawon fynychu cyrsiau HMS neu i gyflenwi dros gyfnod byr o waeledd. Mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid mewn ysgolion, cymunedau lleol, addysg uwch ac asiantaethau cyflenwi i oresgyn rhai o'r anawsterau hyn. Mae hyn yn fater o bwysigrwydd cenedlaethol er mwyn symud yr agenda Gymreig yn ei blaen.

## **21 CANOLFANNAU IAITH**

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gweithredu canolfannau iaith. Gweler rhannau 13.4 a 14.4 am wybodaeth bellach.

## **22 GWYBODAETH I RIENI AM ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG**

**22.1** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cynhyrchu Canllaw i Bolisi a Threfniadau Derbyn bob blwyddyn, sy'n rhestru gwybodaeth ar yr holl ysgolion a gynhelir a'r rhai sy'n derbyn cymorth gwirfoddol yn yr Awdurdod. Mae hefyd yn rhoi manylion o bolisiau'r Cyngor. Mae rhan ynddo yn amlinellu natur ieithyddol a threfniadau derbyn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

**22.2** Mae'r Cyngor yn cynhyrchu a dosbarthu taflenni a phosteri am addysg y Blynyddoedd Cynnar bob blwyddyn. Gyrrir ffurflenni blaenoriaeth dwyieithog i rieni gyda manylion y ddarpariaeth addysg a gynhelir yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar; ac i rieni plant ym Mlwyddyn 6 cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae dyddiadau pwysig yn y gylchred derbyn yn ymddangos yn y Canllaw cyfredol.

**22.3** Os nad yw rhieni'n gallu sicrhau lle yn eu hysgol ddewisol, yna gallant apelio i Bwyllgor Apelio, sy'n cael ei drefnu gan, ond sy'n annibynnol i'r Cyngor.

## **23 HYFFORDDIANT A GWASANAETHAU AR GYFER LLYWODRAETHWYR YSGOLION**

**23.1** Mae deunyddiau dwyieithog ar gael i lywodraethwyr yn eu holl gyfarfodydd ac mae dogfennau hyfforddi a chysiau dwyieithog yn cael eu darparu.

**23.2** Mae gwasanaethau cyfieithu ar gael pan wneir cais. Hysbysir llywodraethwyr o'r gwasanaeth hwn gan Swyddogion Cefnogi'r Ysgol, ac fel arfer defnyddir y gwasanaeth ar gyfer cyfweiliadau a dogfennau.

**23.3** Mae cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael pan wneir cais. Mae llywodraethwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi dewis hyfforddi gyda chydweithwyr o ysgolion cyfagos, a hynny drwy gyfrwng y Saesneg.

## **24 STAFFIO A RECRIWTIO**

**24.1** Mae hysbysebion recriwtio pob swydd yn ddwyieithog. Ble mae swydd yn nodi byddai sgiliau dwyieithog yn ddymunol, fe ddisgrifir hynny yn yr hysbysebion.

**24.2** O fewn y Cyngor Bwrdeistref Sirol, dylai adrannau sydd â chyswllt â'r cyhoedd fod, drwy hyfforddiant dwys/mewnol, â digon o siaradwyr Cymraeg â'r sgiliau addas i sicrhau ei bod yn bosibl darparu'r gwasanaeth a ddisgrifir yn y Cynllun Iaith Gymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg.

**24.3** Anogir aelodau staff (a Chynghorwyr) i fynychu cyrsiau addas wedi'u hanelu at hwyluso defnydd y Gymraeg gyda'r cyhoedd yn y gwaith (a chyda cydweithwyr eraill) yn unol â gofynion eu swyddi ac i gynorthwyo gweithredu'r cynllun. Mae gwelliant dysgwyr yn cael ei fonitro'n ofalus. Anogir dysgwyr i ymgeisio am gymwysterau cydnabyddedig, fel NVQ, ac i chwilio am gyfleoedd am ddyrchafiad yn sgil eu gallu ieithyddol gwell.

## **25 ADDYSG GYMUNEDOL A SGILIAU SYLFAENOL**

**25.1** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cynhyrchu gwybodaeth hyrwyddo, taflenni a llyfrynnau'n ddwyieithog. Mae stoc o ddeunyddiau darllen ar gael i oedolion os oes angen.

**25.2** Darperir cyrsiau iaith Gymraeg i oedolion drwy'r Consortiwm Iaith Gymraeg ac fe'u darperir yng Ngholeg Merthyr ac yn y Ganolfan Cymraeg i Oedolion ym Mhrifysgol Morgannwg.

**25.3** Darperir cyrsiau sgiliau sylfaenol yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Sefydli'r cynlluniau

ar gyhwyn pob blwyddyn academaidd wedi'u hanelu at rieni disgyblion Dosbarth Derbyn.

## **26 CYSYLLTIADAU GYDAG AWDURDODAU A MUDIADAU ERAILL**

**26.1** Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gysylltiadau gweithio agos gyda Chynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerffili. Mae gwasanaeth ymgynghorol ESIS, sy'n cynnwys y tîm Athrawon Bro, yn gwasanaethu'r pedair Bwrdeistref Sirol. Mae hyn yn caniatáu rhannu gwybodaeth ac arbenigedd mewn Mamiaith Cymraeg ac Ail Iaith. Cynhelir ymgynghoriad rheolaidd rhwng swyddogion yr Awdurdod hwn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ynglŷn â darpariaeth addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, trefniadau derbyn a Chynlluniau Addysg Gymraeg.

### **26.2 Urdd Gobaith Cymru**

Mae Urdd Gobaith Cymru'n gweithio gyda phob grŵp oedran yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, boed yn famiaith Cymraeg neu'n ail iaith. Amcan eu gwaith yw rhoi cyfle i blant a phobl ifanc i siarad Cymraeg yn anffurfiol a'r tu allan i amgylchedd yr ysgol. Mae ystod eang o weithgareddau ar gael i blant ysgol gynradd. Mae'r rhain yn cynnwys cystadlaethau chwaraeon, cyfleoedd i ymweld â'r gwrsyll preswyl yn Llangrannog, gweithgareddau dros y gwyliau haf a Jambori blynyddol sy'n denu dros 1,000 o blant.

Rhoir cyfle i blant uwchradd i fynychu gwrsyll preswyl yr Urdd yng Nglan-llyn yn ogystal ag ymweliadau addysgol eraill. Sefydlir clybiau Cymraeg/Urdd amser cinio neu ar ôl ysgol i ehangu arbenigedd iaith y disgyblion.

### **26.3 Mudiad Ysgolion Meithrin**

Cynrychiolir Mudiad Ysgolion Meithrin ar y Bartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

### **26.4 Sgiliau Sylfaenol**

Mae'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn cynnig arian i gefnogi nifer o fentrau effeithiol ar gyfer ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r rhain yn cynnwys: Grant Ymyriad Strategol; Marc Safon Ysgolion Cynradd ac Uwchradd; a Rhaglen Llythrennedd Teuluol.

### **26.5 Prosiect Ymgynghorol Anghenion Arbennig (SNAP)**

Datganiad o genhadaeth SNAP Cymru yw galluogi teuluoedd (rhieni, gwarcheidwaid, plant a phobl ifanc) i gael cyfle i ddweud eu dweud o fewn meysydd anghenion addysgol arbennig a'u cefnogi i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ar lefel leol a chenedlaethol. Gall SNAP Cymru ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

### **26.6 Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG)**

Mae cysylltiadau ffurfiol wedi eu sefydlu rhwng yr Awdurdod a RhAG, ac mae hyn yn golygu cyfarfodydd rheolaidd.

## **27 MONITRO**

**27.1** Bydd Gweithrediad y Cynllun ar lefel yr Awdurdod yn cael ei fonitro gan:

- y Cyfarwyddwr, Ysgolion, Llywodraethu a Gwasanaethau Technegol;
- Rheolwr y Bwrdd Gwasanaeth Addysg, Llywodraethu, Cynhwysiant a Chymorth Ysgol
- Y Grŵp Tasg Cyfrwng Cymraeg (grŵp o Benaethiaid, staff ymgynghorol a phartneriaid); ac
- Ymgynghorydd Cymraeg, ESIS.

Bydd y Cynllun Addysg Gymraeg yn rhan o gyfres gynhwysfawr o bolisiau a chynlluniau a fydd yn

sail i waith yr AALI a'r ysgolion. Bydd monitro'r gweithrediad a'r ansawdd ar lefel yr ysgolion yn ffurfio rhan o'r trefniadau cyffredinol ar gyfer monitro gwasanaethau, sy'n cynnwys:

- cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol
- monitro cyflwyno a gweithredu'r Cwricwlwm
- trefnu a chyflwyno gwasanaethau cefnogi cyfrwng Cymraeg i ysgolion
- monitro gweithrediad amserlen y Cynllun
- ymgynghori ag ysgolion, y cyhoedd ac eraill sy'n ymddiddori mewn addysg Gymraeg
- monitro amllder a natur cwynion ynghylch y Cynllun.

Bydd y Cynllun yn cael ei fonitro'n gyson ac yn barhaol gan ddefnyddio dulliau strwythuredig sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth sydd eisoes yn cael ei defnyddio i fonitro gweithgareddau eraill yr awdurdod. Croesewir awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Bydd yr AALI yn darparu adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ffurf a gymeradwyir gan y Bwrdd. Bydd yr adroddiad yn disgrifio'r cynnydd o ran gweithredu'r mesurau yn y cynllun yn erbyn yr amserlen gymeradwy a bydd yn dadansoddi hyd a lled a natur unrhyw gwynion, awgrymiadau ac addasiadau a awgrymwyd gan y cyhoedd.

Y Cyfarwyddwr, Ysgolion, Llywodraethu a Gwasanaethau Technegol, fydd yn gyfrifol am fonitro cwynion ynghylch Cynllun Addysg Gymraeg yr Awdurdod, ac ymatebir i'r rhain yn unol â Gweithdrefn Gwynion yr Awdurdod.

Bydd y Cyfarwyddwr, Ysgolion, Llywodraethu a Gwasanaethau Technegol, yn gwneud trefniadau i sicrhau adroddiadau blynyddol penodol ar berfformiad, ac yn paratoi adroddiad ar berfformiad y Gyfarwyddiaeth o ran cyflawni ei hymrwymadau. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir a bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd.

Bydd yr AALI yn croesawu ac yn nodi unrhyw awgrymiadau gan y cyhoedd ar gyfer gwelliannau i'w wasanaethau. Dylai unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd yn dymuno cynnig gwelliannau gysylltu â'r canlynol neu ysgrifennu at:

Y Cyfarwyddwr, Ysgolion, Llywodraethu a Gwasanaethau Technegol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Tŷ Keir Hardie, Avenue de Clichy, Merthyr Tudful, CF47 8XD.

## **28 TARGEDAU AC AMSERLEN GWEITHREDU FESUL SECTOR**

**28.1** Bydd y Cynllun Addysg Gymraeg 2010 – 2015 yn adlewyrchu'r agwedd strategol a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae targedau'r Cynllun Addysg Gymraeg yn ategu'r targedau a'r polisiau a nodwyd yng Nghynllun Addysg Sengl Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc dilynol.

**28.2** Bydd gweithredu'r Cynllun Addysg Gymraeg 2010-2015 yn cael ei fesur yn rheolaidd yn erbyn y dyddiadau targed. Gosodir amserlen 5 mlynedd i'w weithredu, yn ystod y cyfnod 2010-2015.

**28.3** Bydd yr AALI yn ystyried goblygiadau cyllidol unrhyw fesur lle mae angen arian ychwanegol, ac yn blaengynllunio'n gyllidol ac yn strategol er mwyn cyrraedd targedau'r Cynllun. Bydd yr amserlen yn cael ei hadolygu a'i hasesu'n flynyddol, a'i thrafod gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dilyn cyflwyno adroddiad blynyddol ar weithrediad y Cynllun gerbron y Bwrdd. Os cynigir unrhyw ychwanegiadau neu newidiadau i'r amserlen neu'r targedau, ymgynghorer â Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn eu gweithredu.

## TABLAU AR GYFER TARGEDAU'R CYNLLUN

Targed	Amserlen gyda mesurau cynllunio a gweithredu	Dyddiad i gwrdd â'r targed
<b>1 Y BLYNYDDOEDD CYNAR</b> (gweler rhan 12)		
1. Parhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel i ddisgyblion dan 5.	Datblygu trefniadau cydweithio gyda Mudiad Ysgolion Meithrin drwy'r Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP) a'r rhaglen Dechrau'n Deg drwy: <ul style="list-style-type: none"> <li>• sefydlu grŵp tasg cyfle cyfartal i ystyried, fel rhan o'i gylch gorchwyl, cyfle cyfartal mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg;</li> <li>• gweithio gyda'r sector gwirfoddol cyfrwng Cymraeg i gynyddu'r nifer o Gylchoedd Meithrin a gofrestrir gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru;</li> <li>• Cynnig mynediad i raglen hyfforddi gynhwysfawr i ddatblygu sgiliau dwyieithog staff ac i ymateb i unrhyw fentrau a hyrwyddir gan LICC i ddatblygu dwyieithrwydd.</li> <li>• Parhau i weithio gyda Mudiad Ysgolion Meithrin i hyrwyddo'r cymhwyster Lefel 3 Cam Wrth Gam.</li> </ul>	2010 ac yn barhaus hyd 2015  Cofrestru 2 ddarparwr ychwanegol erbyn 2015 Creu 32 o leoedd gofal plant newydd erbyn 2015  2010
2. Parhau i ddarparu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a'r sector nad yw'n cael ei gynnal.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhad o Arian AAL i ddsbarthiadau meithrin Ysgol Santes Tudful ac Ysgol Rhyd y Grug;</li> <li>• Gweithio gyda'r sector cyfrwng Cymraeg nad yw'n cael ei gynnal i ddod yn ddarparwyr addysgol EYDCP cymeradwy.</li> </ul>	Parhaus  Achredu 1 darparwr erbyn 2012
3. Datblygu cyfleoedd mewn diwylliant ac iaith Gymraeg mewn pob lleoliad blynyddoedd cynnar.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnig cefnogaeth ymarferol i'r Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i ddatblygu rhaglenni er mwyn ehangu'r cyfleoedd i gyflwyno diwylliant ac iaith Gymraeg o fewn yr holl lleoliadau blynyddoedd cynnar.</li> <li>• Gwneud y mwyaf o gyflwyno dwyieithrwydd fel maes allweddol o ddysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen drwy waith a chefnogi'r EYDCP.</li> </ul>	Yn barhaus o 2009 gyda gwerthusiad bob blwyddyn  2010-parhaus
4. Parhau i gydweithio gyda MYM drwy'r Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP).	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddog MYM i fynychu EYDCP a'r is-grwpiau perthnasol – yn fisol a chwarterol;</li> <li>• Cyfarfodydd monitro chwarterol rhwng MYM a Thîm Blynyddoedd Cynnar Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i fonitro cyflenwad ac i ymdrin ag unrhyw bryderon;</li> <li>• Arian gan EYDCP ar gyfer staff Blynyddoedd Cynnar fynychu hyfforddiant;</li> <li>• Darparu hyfforddiant ac arweiniad i bob aelod staff Cylchoedd Meithrin wrth weithredu'r Cyfnod Sylfaen;</li> <li>• Diweddariad gwybodaeth EYDCP misol i'r Cylch Meithrin i sicrhau bod ymarfer da'n cael ei rannu;</li> <li>• Hyrwyddo a datblygu addysg Blynyddoedd Cynnar yn y Cylchoedd Meithrin – targed yw sefydlu 1 darparwr cofrestredig.</li> </ul>	Misol a chwarterol  Chwarterol  2010 – parhaus  Misol  2012

<p><b>2 PONTIO RHWNG Y BLYNYDDOEDD CYNNAR AC YSGOLION CYNRADD CYFRWNG CYMRAEG</b> (gweler rhan 12.4)</p>		
<p>1. Sicrhau bod yr holl blant dderbyniodd addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod y blynyddoedd cynnar yn cael mynediad i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Drwy waith y Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, bydd yr awdurdod yn parhau i fonitro a gwerthuso'r galw gan rieni ac os yw lleoedd blynyddoedd cynnar ar gael o fewn y sector cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn.</li> <li>• Y Swyddog Cefnogi Blynyddoedd Cynnar / Cyfnod Allweddol 1, Swyddog Datblygu MYM ac Arweinwyr Meithrin i barhau i gydweithio gyda/datblygu cysylltiadau rhwng grwpiau MYM ac ysgolion cynradd.</li> <li>• Swyddog Blynyddoedd Cynnar/ Cyfnod Allweddol 1, Swyddog Datblygu MYM a phenaethiaid i fonitro'r cysylltiadau rhwng lleoliadau ac ysgolion cynradd.</li> </ul>	<p>Gweithredu 2010 Cyflawni – yn barhaus Adolygiad a gwerthusiad blynyddol</p>
<p>2. Sicrhau bod safonau cyrhaeddiad yn cael eu cynnal wrth drosglwyddo i'r cyfnod cynradd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddog Blynyddoedd Cynnar / Cyfnod Allweddol 1 i werthuso dilyniant a gwelliant drwy ddadansoddi adroddiadau archwilio Estyn.</li> <li>• Penaethiaid a staff ysgolion cynradd i ddefnyddio gwybodaeth asesu a dderbyniwyd wrth gychwyn i gynllunio a pharatoi cwricwlwm cyffrous sy'n adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth bresennol, gan alluogi disgyblion i gyflawni eu llawn botensial.</li> <li>• Gosod targedau cyrhaeddiad sy'n cynnwys Cymraeg ac olrhain datblygiad disgyblion.</li> <li>• Dadansoddi data cyrhaeddiad a hunan werthuso ysgolion i ddathlu a rhannu ymarfer da a phennu meysydd sydd angen eu gwella.</li> <li>• Darparu mynediad i raglen hyfforddi gynhwysfawr i ddatblygu sgiliau dwyieithrwydd staff ac ymateb i unrhyw fentrau a hyrwyddir gan LICC i ddatblygu dwyieithrwydd.</li> <li>• Cefnogi dysgu'r iaith Gymraeg ledled yr awdurdod drwy ESIS, gwasanaeth ymgynghori'r awdurdod ac Athrawon Bro.</li> </ul>	<p>2010 gydag adolygiad blynyddol bob mis Medi hyd 2015</p>
<p>3. Cefnogi gweithredu a datblygu dilynol y Cyfnod Sylfaen o fewn ysgolion cynradd gyda phwyslais cynyddol ar ddatblygu cynyddol sgiliau dwyieithog plant mewn Cymraeg a Saesneg drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ddarparu rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr</li> <li>• darparu rhaglen iaith Gymraeg</li> </ul> <p>parhau i werthuso safonau ac ansawdd y ddarpariaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu rhaglen iaith Gymraeg i staff ar gyfer y blynyddoedd cynnar hyd Flwyddyn 6 i ddarparu cefnogaeth wrth ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu sgiliau dwyieithog disgyblion.</li> <li>• Parhau i fonitro a gwerthuso safonau ac ansawdd y ddarpariaeth drwy ddadansoddi adroddiadau archwilio Estyn, ac unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd o'r rhaglen adolygu a datblygu a chan swyddogion allweddol.</li> </ul>	<p>2010 gydag adolygiad blynyddol fis Medi hyd 2015</p>

<p><b>3 ADDYSG GYNRADD</b> (gweler rhan 13)</p>		
<p>1.a) Adolygu safonau adeiladau mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r Cynllun Rheoli Asedau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Archwilio'r arolygiadau cyflwr adeiladau a gyflawnwyd yn ddiweddar ac asesu'n llawn eu hanghenion yn seiliedig ar y meini prawf ar gyfer addasrwydd, digonedd a chynaliadwyedd. Mae Cynllun Rheoli Asedau Addysg 2009-2014 wedi cyfarwyddo Rhaglen Adeiladu Cyfalaf yr Awdurdod. Mae hyn wedi cynnwys gwaith cyfalaf mawr ar gyfer y ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Symudodd Ysgol Santes Tudful i ysgol newydd yn ystod Tymor y Gwanwyn 2009 a bydd Ysgol Rhyd y Grug yn symud i adeiladau wedi'u hailwampio ar gyfer Tymor yr Hydref 2010.</li> </ul>	<p>Agorwyd ysgol newydd Ysgol Santes Tudful Tymor y Gwanwyn 2009</p> <p>Agorwyd ysgol newydd Ysgol Santes Tudful Tymor y Gwanwyn 2009</p>
<p>b) Parhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o ansawdd i blant oed cynradd mae'r rhieni'n gofyn amdano.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflawni adolygiad blynyddol gan ddefnyddio data cyfradd geni, demograffeg a thueddiadau i gyfarwyddo cynllunio lleoedd ysgol, drwy adnabod y diffygion potensial wrth gwrdd â'r gofyn neu â'r potensial am leoedd dros ben.</li> <li>Yr awdurdod i barhau i fonitro a gwerthuso'r galw gan rieni a'r nifer o leoedd sydd ar gael o fewn y sector cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn ac ystyried effaith tebygol unrhyw ddatblygiadau preswyl sy'n newydd neu sydd ar y gweill ar lefelau galw.</li> <li>Yr awdurdod i asesu'r angen i gynnal arolwg gyda rhieni ar y galw am addysg cyfrwng Cymraeg.</li> </ul>	<p>2010 gydag adolygiad blynyddol</p> <p>2010 a phob mis Medi hyd 2015</p> <p>Yn ystod 2010-2015</p>
<p>c) Adolygu safonau adeiladau mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r Cynllun Rheoli Asedau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Archwilio'r arolygiadau cyflwr adeiladau a gyflawnwyd yn ddiweddar ac asesu'n llawn eu hanghenion yn seiliedig ar y meini prawf ar gyfer addasrwydd, digonedd a chynaliadwyedd. Mae Cynllun Rheoli Asedau 2009-2014 wedi cyfarwyddo Rhaglen Adeiladu Cyfalaf yr Awdurdod ac mae hyn yn cynnwys gwaith cyfalaf mawr ar gyfer y ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Symudodd Ysgol Santes Tudful i adeiladau newydd yng Ngwanwyn 2009 a bydd Ysgol Rhyd y Grug yn symud i adeiladau wedi'u hailwampio ar gyfer mis Medi 2010.</li> </ul>	<p>Agorwyd ysgol newydd Ysgol Santes Tudful Tymor y Gwanwyn 2009</p> <p>Symud Ysgol Rhyd y Grug i safle newydd ar gyfer Tymor yr Hydref 2010</p>
<p>2. Datblygu, gwella ac ymestyn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion cynradd i sicrhau safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Drwy ESIS a datblygu'r ysgol, staff i barhau i gynnig cefnogaeth cwricwlwm i gefnogi ymdrechion yr ysgol i godi safonau cyrhaeddiad.</li> <li>Darparu mynediad i raglen hyfforddi gynhwysfawr i staff i'w galluogi i gynnig rhaglenni astudio cwricwlwm cenedlaethol a datblygu dwyieithrwydd a dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Cymreig ac i ymateb i fentrau a hyrwyddir gan LICC i ddarparu hyfforddiant i staff i weithredu'r anghenion yn y Cyfnod Sylfaen.</li> <li>Drwy wasanaethau ESIS ac Athrawon Bro cefnogi dysgu dwyieithrwydd a Chymraeg ail iaith mewn ysgolion cynradd ledled yr awdurdod.</li> </ul>	<p>2010 gydag adolygiad blynyddol bob mis Medi</p>
<p>3. Datblygu addysgu Cymraeg fel ail iaith a dwyieithrwydd drwy gydol y Cyfnod Sylfaen ac addysg gynradd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu rhaglen iaith Gymraeg i staff ar gyfer y blynyddoedd cynnar hyd Flwyddyn 6 i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg ac i ddatblygu sgiliau dwyieithrwydd disgyblion.</li> </ul>	<p>2010 gydag adolygiad blynyddol bob mis Medi</p>



<p>4. Sicrhau bod dealltwriaeth disgyblion o'r Cwricwlwm Cymraeg yn parhau i gael ei ddatblygu ym mhob ysgol gynradd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgolion cynradd i barhau i ganolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'r Cwricwlwm Cymreig i sicrhau bod ganddynt wybodaeth a deallusrwydd o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.</li> <li>• Parhau i ddarparu mynediad i raglen hyfforddi staff i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael yn y dosbarth a'r tu allan.</li> <li>• Drwy'r gwasanaethau ESIS ac Athrawon Bro cefnogi datblygiad y Cwricwlwm Cymreig mewn ysgolion cynradd drwy'r AALI.</li> <li>• Drwy ESIS a thrwy ddadansoddi data archwilio parhau i fonitro a gwerthuso os yw anghenion y Cwricwlwm Cymreig yn cael eu cwrdd.</li> <li>• Drwy wasanaethau ESIS ac Athrawon Bro datblygu rhaglen iaith sy'n cefnogi datblygiad parhaus yr iaith Gymraeg drwy gydol y cyfnodau allweddol yn y cyfnod cynradd.</li> <li>• Ysgolion cyfrwng Cymraeg i barhau i ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau iaith Cymraeg a Saesneg drwy gydol y cyfnod cynradd drwy ddefnyddio asesu i gyfarwyddo dysgu, gosod targedau heriol a monitro a gwerthuso safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.</li> </ul>	<p>2010 gydag adolygiad blynyddol bob mis Medi</p>
<p><b>4 PONTIO CYNRADD UWCHRADD</b> (gweler rhan 14.2)</p>		
<p>1. Sicrhau bod yr holl blant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod y cyfnod cynradd yn gallu cael mynediad i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi mynediad i rieni i fanylion addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd.</li> <li>• Yn dilyn archwiliad diweddar o CA2/3, datblygu'r rhaglen bresennol o ymweliadau disgyblion ag Ysgol Rhydywaun drwy Grwpiau Gwelliannau Ysgol er mwyn rhannu ymarfer da.</li> </ul>	<p>Medi 2010 gydag adolygiad bob Tymor yr Hydref</p>
<p>2. Sicrhau cytundeb a dealltwriaeth rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd ar lefelau cyrhaeddiad mewn Cymraeg fel mamiaith, yn y pynciau a ddysgwyd drwy gyfrwng y Gymraeg a Chymraeg fel ail iaith i gynorthwyo dilyniant a datblygiad pob disgybl sy'n trosglwyddo o'r cyfnod cynradd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pennaeth Gwella Ysgol i barhau i hyrwyddo mentrau LICC i ddatblygu pontio a chynyddu'r cysylltiadau rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg.</li> </ul>	<p>Medi 2010 gydag adolygiad bob Tymor yr Hydref</p>

<p>3. Sicrhau bod safonau cyrhaeddiad yn cael eu cadw wrth drosglwyddo i'r cyfnod uwchradd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno ar fformat i drosglwyddo gwybodaeth asesu o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd fel rhan o'r cynllun pontio statudol ar gyfer pob ysgol.</li> <li>• Monitro datblygiad yr iaith Gymraeg ym Mlwyddyn 7 drwy'r Gwasanaeth Ymgynghorol a'r Athrawon Bro i sicrhau dilyniant a gwelliant.</li> <li>• Sicrhau, ble bo'n bosibl, lefel uchel o gaffaeliad iaith i alluogi disgyblion i ddatblygu'n llwyddiannus o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.</li> <li>• Ysgolion uwchradd i ddefnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio a darparu cwricwlwm sy'n adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth bresennol disgyblion i gwrdd â'u llawn botensial.</li> <li>• Gosod targedau cyrhaeddiad ac olrhain datblygiad disgyblion.</li> <li>• Dadansoddi data cyrhaeddiad a hunan werthusiad ysgolion i ddathlu a rhannu ymarfer da ac adnabod meysydd ble mae angen gwella.</li> </ul>	<p>Medi 2010 gydag adolygiad bob Tymor yr Hydref</p>
<p><b>5 ADDYSG UWCHRADD</b> (gweler rhannau 14.2 i 14.6)</p>		
<p>1. Parhau i ddarparu mynediad i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel i blant.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal trefniadau cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ynglŷn â darpariaeth addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.</li> </ul>	<p>Adolygu mynediad i addysg uwchradd yn flynyddol fis Medi hyd at 2015</p>
<p>2. Sicrhau bod pob disgybl mewn ysgol uwchradd yn derbyn cyfle i sefyll arholiad allanol yn y Gymraeg fel ail iaith erbyn diwedd CA4 a chynyddu'r canran o ddisgyblion sy'n ymgeisio am TGAU Cymraeg fel Ail iaith (cwrs llawn a byr) o 42.9% i 45% erbyn 2015</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod addysgu pob disgybl yn y Gymraeg yn cael ei achredu'n addas ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.</li> <li>• Gwerthuso effaith y cwrs iaith sy'n seiliedig ar weithgareddau i ddisgyblion nad ydynt yn dilyn y Cwrs TGAU Llawn yng Nghyfnod Allweddol 4.</li> </ul>	<p>Mis Gorffennaf 2010 ac yn flynyddol hyd 2015</p> <p>Mis Gorffennaf 2010 ac yn flynyddol hyd 2015</p>
<p>3. Gwerthuso darpariaeth statudol ar gyfer Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 a rhannu ymarfer effeithiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Gwasanaeth Ymgynghorol i adolygu'r amrywiaeth o ddulliau presennol y gall ysgolion gwrdd â'r gofynion statudol ar gyfer dysgu Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4, gan ystyried Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, APADGOS ac Estyn a rhoi cyngor ar strategaethau effeithiol.</li> </ul>	<p>Mis Medi 2010 gydag adolygiad blynyddol</p>
<p><b>6 ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG</b> (gweler rhan 16)</p>		

<p>1. Parhau gyda pholisi recriwtio gweithredol ar gyfer siaradwyr Cymraeg</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod y gallu i siarad Cymraeg yn faen prawf dymunol ar gyfer recriwtio staff cefnogi anghenion addysgol arbennig er mwyn cefnogi disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig o fewn addysg cyfrwng Cymraeg prif lif.</li> <li>Archwilio trefniadau gweithio ar y cyd gydag awdurdodau cyfagos er mwyn darparu gwasanaeth AAA dwyieithog.</li> <li>Parhau i gynnig yr holl broses o asesu statudol ac o lunio datganiad yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog ar ddechrau'r broses asesu statudol.</li> </ul>	<p>2010 ac yn barhaus</p>
<p>2. Sicrhau addasrwydd yr adnoddau Cymreig sydd ar gael i ddisgyblion gydag AAA.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu'r adnoddau presennol sydd ar gael i gefnogi disgyblion gydag AAA.</li> <li>Gweithio gydag ESIS i adnabod y bylchau mewn adnoddau a deunyddiau i gynorthwyo asesu a chefnogi AAA a chyfuno sgiliau i ymdrin â'r rhain.</li> </ul>	<p>Gorffennaf 2010 a phob tymor yr haf wedi hyn</p>
<p><b>7 Y GWASANAETH ATHRAWON BRO / YMGYNGHOROL</b> (gweler rhan 20)</p>		
<p>1. Sicrhau bod y Tîm Athrawon Bro gyda digon o staff i gwrdd ag angen mamiaith Cymraeg ac ail iaith ar draws pob cyfnod allweddol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i ymgynghori gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddarparu cefnogaeth ariannol addas i sicrhau tîm Athrawon Bro effeithiol o fewn y Fwrdeistref Sirol.</li> <li>Cefnogi ysgolion o leiaf 3 gwaith y flwyddyn gan ddefnyddio'r gymhareb staff presennol a chynyddu ymweliadau os derbynnir arian am staff ychwanegol.</li> </ul>	<p>2010 gydag adolygiad blynyddol fis Gorffennaf hyd 2015</p>
<p>2. Y Tîm Athrawon Bro i barhau i gynnig darpariaeth safonol i gefnogi athrawon meithrin, cynradd ac uwchradd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.</p>	<p>Athrawon Bro – Cynradd Ail Iaith</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu cyrsiau a chefnogaeth dosbarth addas ar gyfer deunyddiau Athrawon Bro ESIS.</li> <li>Datblygu deunyddiau lleol i gyd-daro â Chynllun Gwaith ESIS ar gyfer Cymraeg fel Ail Iaith yn y cyfnod cynradd.</li> <li>Datblygu a rhannu deunyddiau ychwanegol i gefnogi'r holl sgiliau iaith.</li> <li>Sefydlu system asesu effeithiol a fideo enghreifftiol i gefnogi athrawon.</li> <li>Sicrhau dilyniant a gwelliant wrth bontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.</li> </ul> <p>Athrawes Fro – Mamiaith</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi a darparu hyfforddiant addas i athrawon ar weithdrefnau a strategaethau asesu yn Gymraeg o fewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.</li> <li>Sicrhau dilyniant a gwelliant wrth addysgu sgiliau allweddol cyfathrebu drwy hyfforddiant mewn gwasanaeth.</li> <li>Datblygu deunyddiau i gefnogi'r holl sgiliau iaith.</li> <li>Parhau i ddatblygu defnydd TGCh i godi safonau mewn ysgolion Cymraeg mamiaith ac ail iaith.</li> </ul>	<p>Hydref 2010 Medi 2010</p> <p>2010 gydag adolygiad blynyddol yng Ngorffennaf wedyn</p>

<p>3. Cefnogi gweithredu a datblygu dilynol y Cyfnod Sylfaen gyda phwyslais cynyddol ar ddatblygiad cynyddol giliau dwyieithrwydd plant yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi gweithredu a datblygiad dilynol y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion. Y Tîm Athrawon Bro ac ESIS i gyfrannu tua'r elfen ddwyieithog ar draws y meysydd dysgu gan ddefnyddio gwybodaeth gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol a'r peilot Cyfnod Sylfaen cenedlaethol.</li> </ul>	<p>2010 ac yn flynyddol ym mis Medi hyd 2015</p>
<p><b>8 GWASANAETHAU AR GYFER HWYRDDYFODIAID I'R IAITH GYMRAEG</b> (gweler rhannau 13.4, 14.4, 21)</p>		
<p>1. Darparu cefnogaeth ganolog i ysgolion wrth i ddisgyblion drosglwyddo o ysgolion cynradd nad ydynt yn gyfrwng Cymraeg i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu cefnogaeth i gefnogi hwyreddyfodiaid i integreiddio'n unol â gofynion ac anghenion ysgolion unigol.</li> <li>Cynhyrchu ystod o ddeunyddiau addas i gefnogi ysgolion ymhellach.</li> </ul>	<p>2010 a phryd bynnag fo angen hyd 2015 Adolygiad blynyddol fis Gorffennaf</p>
<p><b>9 CYDWEITHIO GYDA CHYRFF A SIROEDD ERAILL</b> (gweler rhan 26)</p>		
<p>1. Parhau i gynnal perthynas weithiol gadarnhaol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, RhAG, Mudiad Ysgolion Meithrin, a chyrrff perthnasol eraill.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i fonitro a chryfhau trefniadau cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.</li> <li>RhAG – cynrychiolaeth ar y Grŵp Tasg Cyfrwng Cymraeg.</li> <li>MYM – cynrychiolaeth yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.</li> </ul>	<p>2010 ac yn flynyddol bob mis Medi hyd 2015</p>
<p><b>10 GWASANAETHAU A HYFFORDDIANT AR GYFER LLYWODRAETHWYR YSGOLION</b> (gweler rhan 23)</p>		
<p>1. Parhau i sicrhau bod deunyddiau dwyieithog ar gael i lywodraethwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i hyrwyddo'r gwasanaethau dwyieithog sydd ar gael i lywodraethwyr.</li> <li>Parhau i sicrhau bod deunyddiau dwyieithog yn cael eu dosbarthu i lywodraethwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg.</li> </ul>	<p>Parhau i sicrhau bod deunyddiau dwyieithog yn cael eu dosbarthu i lywodraethwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg.</p>
<p>2. Parhau i sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu ar gael mewn cyfarfodydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i hyrwyddo'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael i'r cyrrff llywodraethu.</li> </ul>	<p>2010 ac fel bo angen hyd 2015</p>
<p><b>11 ADDYSG ÔL-16</b> (gweler rhan 15)</p>		

<p>1. Parhau i fonitro a chryfhau trefniadau ôl-16 gydag Awdurdod Rhondda Cynon Taf.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn unol â chanlyniadau astudiaeth dichonoldeb y Rhwydwaith 14-19, cynhyrchu cynllun gweithredu sy'n nodi'r gweithredoedd a'r cerrig milltir allweddol i'w cymryd drwy gydol 2008-2013. Mae'r Rhwydwaith yn parhau i gynnig cefnogaeth ariannol a chefnogaeth mewn ffyrdd eraill i sefydlu ystod o lwybrau dysgu wedi'u hachredu drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> </ul>	<p>Mis Medi 2010 gydag adolygiad blynyddol bob mis Medi wedyn</p>
<p>2. Diogelu darpariaeth effeithiol barhaol ar gyfer dysgwyr ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg ac ehangu'r ystod o gyrsiau galwedigaethol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda RCT a chefnogi parhad yn y ddarpariaeth ôl-16 yn Ysgol Rhydywaun.</li> </ul>	<p>Adolygu datblygiad bob mis Medi</p>
<p><b>12 ADDYSG GYMUNEDOL GAN GYNNWYS CYMRAEG I OEDOLION A SGILIAU SYLFAENOL</b> (gweler rhan 25)</p>		
<p>1. Hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn weithgar o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid.</p> <p>2. Datblygu'r bartneriaeth gyda gweithiwr yr Urdd ymhellach drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu rhaglenni dwyieithog ar y cyd, e.e. teithiau ac ymweliadau.</li> <li>• Anogaeth i gymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> <li>• Datblygu taflenni dwyieithog i'w dosbarthu ledled y Gwasanaeth Ieuenctid a chanolfannau'r Urdd.</li> <li>• Creu pwyntiau gwybodaeth a chyngor dwyieithog ym mhob canolfan ieuenctid.</li> </ul>	<p>2010 ac ymlaen hyd 2015 Adolygiad bob tymor yr Hydref</p>
<p><b>13 MONITRO'R CYNLLUN</b> (gweler rhan 27)</p>		
<p>1. Sicrhau bod staff yn adrannau eraill yr awdurdod yn ymwybodol o'r Cynllun a'i gynnwys.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Copi o'r ddogfen ar gael ym mhob Adran.</li> <li>• Ymgynghori gydag ysgolion drwy gyfarfodydd grwpiau clwstwr a chyfarfodydd y Grŵp Tasg Cyfrwng Cymraeg.</li> <li>• Adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn flynyddol o'r dyddiad cymeradwyo.</li> <li>• Adroddiad blynyddol i'r Cabinet.</li> </ul>	<p>Ar ôl cymeradwyo'r cynllun</p> <p>Yn flynyddol o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun</p>
<p>2. Monitro gweithredu'r Cynllun yn systematig ar ran Cyfarwyddwr Ysgolion, Llywodraethu a Gwasanaethau Technegol a chyflwyno adroddiad blynyddol ar y cynnydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad bob tymor i'r Grŵp Tasg Cyfrwng Cymraeg.</li> </ul>	<p>Bob tymor ar ôl cymeradwyo'r cynllun</p>

**DATA'R CYFRIFIAD: SIARADWYR CYMRAEG DRWY WARD ETHOLIADOL**



Rhanbarthau Etholiadol ym Merthyr Tudful	Grŵp oed	Grŵp oed	Nifer o bobl all siarad Cymraeg	Nifer o bobl na allant siarad Cymraeg	Canran all siarad Cymraeg
Bedlinog	3 a throsodd	3289	296	2993	9.0
Cyfarthfa	3 a throsodd	5943	783	5160	13.2
Dowlais	3 a throsodd	6428	686	5742	10.7
Y Gurnos	3 a throsodd	4826	344	4482	7.1
Dyffryn Merthyr	3 a throsodd	3786	404	3382	10.7
Y Parc	3 a throsodd	4199	391	3808	9.3
Penydarren	3 a throsodd	5065	421	4644	8.3
Plymouth	3 a throsodd	4836	464	4372	9.6
Y Dref	3 a throsodd	6375	675	5700	10.6
Treharris	3 a throsodd	6024	701	5323	11.6
Y Faenor	3 a throsodd	3346	369	2977	11.0

**RHESTR O GYRSIAU HMS I GEFNOGI DATBLYGU'R GYMRAEG MEWN YSGOLION****Mamiaith Cymraeg****Cynradd**

Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen  
Athrawon Cymraeg Newydd Gymhwyso  
Cyдынwyr Iaith a Llythrennedd  
Cynllunio CA2 ar gyfer y Cwricwlwm  
Cenedlaethol Diwygiedig  
Asesu ar gyfer Dysgu – Darllen

**Uwchradd**

Athrawon Cymraeg Newydd Gymhwyso  
Hyfforddiant ar gyfer ymgeiswyr pennaeth adran  
Defnyddio TG i gefnogi'r Cwricwlwm Newydd  
Codi safonau yn y Gymraeg

Cynllunio CA3 ar gyfer y Cwricwlwm  
Cenedlaethol Diwygiedig

**Cymraeg Ail Iaith****Cynradd**

Cwrs Cymraeg Dwys – Dechreuwyr  
Cwrs Cymraeg Dwys – Dechreuwyr/Lefel 1  
Cwrs Cymraeg Dwys – Lefel 2  
Cwrs Cymraeg Dwys – Lefel 3  
Cwrs Gloywi Cymraeg – Lefel 1

Cwrs Cymraeg ar gyfer Cynorthwywyr Cymorth  
Dysgu  
Y Blynyddoedd Cynnar – Datblygu rôl yr oedolyn  
y tu allan  
Cyfnod Sylfaen – Bant â Ni  
Cyfnod Sylfaen – Ar y Ffordd  
Cyfnod Sylfaen – O Ddydd i Ddydd  
Cyfnod Sylfaen – Ymagwedd Ddramatig i  
Ddwieithrwydd  
Cyfnod Sylfaen – Dwyieithrwydd drwy  
ddefnyddio Hwiangerddi  
Cyfnod Sylfaen – Dewch am Dro  
Cynradd – CA2 Cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm  
Cenedlaethol Diwygiedig

**Uwchradd**

Athrawon Cymraeg Newydd Gymhwyso  
Hyfforddiant ar gyfer ymgeiswyr pennaeth adran  
Defnyddio TG i gefnogi'r Cwricwlwm Newydd  
Codi safonau mewn Cymraeg Ail Iaith  
Cynllunio CA3 ar gyfer y Cwricwlwm  
Cenedlaethol Diwygiedig  
Cwrs Cymraeg ar gyfer Cynorthwywyr Cymorth  
Dysgu

**TABL TYFIANT/DATBLYGIAD AR GYFER ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG**

Ysgol Rhyd y Grug

Blwyddyn	Blynyddoedd Cynnar	Derbyn a Chyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2	Cyfanswm
1996	22	116	147	285
1997	32	94	144	270
1998	44	90	152	286
1999	41	80	143	264
2000	30	92	118	240
2001	30	90	109	229
2002	30	99	109	238
2003	30	92	110	232
2004	22	92	104	218
2005	22	63	103	188
2006	19	63	101	183
2007	25	52	100	177
2008	22	50	92	164
2009	24	45	85	154
2010	25	50	70	145

Ysgol Santes Tudful

Blwyddyn	Blynyddoedd Cynnar	Derbyn a Chyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2	Cyfanswm
1996	13	198	171	382
1997	56	206	186	448
1998	60	188	215	463
1999	59	180	220	459
2000	55	148	235	438
2001	60	142	230	432
2002	49	151	201	401
2003	49	164	188	401
2004	49	156	175	380
2005	55	153	181	389
2006	53	145	183	381
2007	67	139	189	395
2008	59	137	191	387
2009	58	151	189	398
2010	61	110	206	400



**RHAGAMCANION NIFER DISGYBLION MEWN YSGOLION CYNRADD CYFRWNG  
CYMRAEG**

Ysgol	Capasiti	2008 (gwirioneddol)	2009 (gwirioneddol)	2010 (gwirioneddol)	2011	2012	2013	2014
Ysgol Rhyd y Grug	183	142	130	120	120	126	133	147
Ysgol Santes Tudful	390	328	340	339	360	365	379	398

NODER: nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys disgyblion meithrin